

3 Mehefin 2015

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Aelodau tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru oedd Sally Evans, Rachel Harries, Sophie Knott a Stephen Martin dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**Swyddfa Archwilio Cymru**  
**24 Heol y Gadeirlan**  
**Caerdydd**  
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilydd penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru), neu gweler y wefan [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru).

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Os ydych chi angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

# Cynnwys

	Rhagair	4
	Crynodeb	6
	Argymhellion	11
1	Ar ôl cyfnod o ansicrwydd, mae sylfeini'r system gwella ysgolion yn dechrau sefydlu ac mae arwyddion cadarnhaol o gynnydd mewn rhai gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol	14
2	Wrth i'r sylfeini gael eu sefydlu, mae'r gwendidau sy'n parhau yn llesteirio cyflymder y broses o ddatblygu system gwella ysgolion gwbl effeithiol ledled Cymru	26
3	Mae consortia rhanbarthol yn parhau i ddatblygu ac yn adlewyrchu'r model disgwylidig yn fras, ond nid yw prosesau llywodraethu effeithiol a threfniadau rheolaeth ariannol wedi'u rhoi ar waith yn llawn	36
	<b>Atodiadau</b>	
	Atodiad 1 – Methodoleg yr astudiaeth	46
	Atodiad 2 – Prif ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad Estyn ar waith y consortia rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion	47
	Atodiad 3 – Trefniadau consortia rhanbarthol	52

# Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun cynnar o ddatblygiad y trefniadau i sicrhau gwelliannau mewn ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol. Gofynnais i'r astudiaeth y mae'r adroddiad wedi ei seilio arni gael ei chynnal ar y cam cynnar hwn yn natblygiad y consortia fel cydbwyllgorau neu gwmnïau gan fod y dull hwn o weithio yn un newydd a bydd effeithiolrwydd y trefniadau yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Y bwriad oedd rhoi sicrwydd bod y gwaith yn dod yn ei flaen a nodi meysydd lle y gallai fod angen gwneud gwaith ychwanegol i sicrhau bod trefniadau llywodraethu ac ariannol y system yn briodol. Cynhaliwyd y gwaith maes ar y cyd ag Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant (Estyn) a ymgwymerodd â'r gwaith er mwyn llunio adroddiad ar wahân i'r Gweinidog. Rwyf yn falch bod yr adroddiad yn nodi bod consortia rhanbarthol wedi ymateb yn dda i adborth a gafwyd gan y timau gwaith maes a bod camau eisoes yn cael eu cymryd i ymdrin â rhai agweddau ar y canfyddiadau.

**Huw Vaughan Thomas**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Crynodeb ac argymhellion





# Crynodeb

- 1 Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi sy'n eu gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio trwy gonsortia addysg rhanbarthol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau gwella ysgolion. Mae hon yn elfen allweddol o'i hymateb i fynd i'r afael â'r hyn y mae'n ei ystyried yn danberfformiad yn y system addysg yng Nghymru:
  - a Ers 2005, mae samplau o blant (15 oed) yng Nghymru wedi cymryd rhan ym mhroffion Cynnydd mewn Llythrennedd Darllen Rhyngwladol (PISA) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Yn sgil y profion PISA, cyhoeddwyd lefelau perfformiad gwledydd o'u cymharu â'i gilydd. Yn 2013, cyhoeddodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ganlyniadau profion 2012, a nododd bod perfformiad yng Nghymru yn is na gweddill y Deyrnas Unedig a bod safle Cymru o gymharu â gwledydd eraill wedi gostwng<sup>1</sup>.
  - b Mae Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant (Estyn) yn arolygu ansawdd a safonau'r gwasanaethau addysg a hyfforddiant y mae'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn eu darparu i blant a phobl ifanc. Yn ystod cylch arolygu 2010-2013, gwasanaethau addysg un awdurdod lleol yn unig a oedd â pherfformiad cyffredinol rhagorol, yn ôl asesiad Estyn. Nododd Estyn fod angen gwneud gwaith monitro dilynol ar fwy na dwy ran o dair o wasanaethau addysg awdurdodau lleol.
- 2 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan **Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998** i hybu safonau uchel yn yr ysgolion a gynhelir yn eu hardal. Yn hanesyddol, mae awdurdodau lleol wedi cyflawni hyn drwy dimau o gynghorwyr gwella ysgolion, sy'n ymweld ag ysgolion i'w herio a'u cefnogi i wella eu perfformiad.
- 3 Ym mis Chwefror 2011, nododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd gyfres o 20 o flaenoriaethau ar gyfer trawsnewid safonau cyflawniad yn gyflym yng Nghymru. Yn rhan o'r cyhoeddiad hwn, dywedodd y Gweinidog y dylai awdurdodau lleol weithio trwy drefniadau consortiwm i godi safonau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd a ddylai gael eu hailgyfeirio i'r 'rheng flaen'<sup>2</sup>. Dywedodd y byddai awdurdodau lleol yn cael eu cosbi'n ariannol pe na fyddent yn cymryd rhan yn y trefniadau hynny. Ym mis Mawrth 2011, cyflwynwyd adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol, a gomisiynwyd gan y Gweinidog ac a arweiniwyd gan Vivian Thomas<sup>3</sup>, gan nodi: 'We conclude that education accountability structures are over complex or simply not clear enough in Wales at this time and that reform is required.' Cytunodd y 22 awdurdod lleol i weithio trwy bedwar consortiwm rhanbarthol o fis Medi 2012.

1 **Cyflawniad Disgyblion 15 Oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2012**, Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, Rhagfyr 2013.

2 **Datganiad i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**, Gweinidog Addysg a Sgiliau, Mawrth 2011.

3 **Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru**, Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol, Mawrth 2011.


- 4 Ym mis Mehefin 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol**, sef adolygiad a arweiniwyd gan Robert Hill<sup>4</sup>. Mae pennod chwech o'r adolygiad yn mynd i'r afael â swyddogaethau a chyfrifoldebau perthnasol yr awdurdodau lleol, y consortia rhanbarthol a'r llywodraeth genedlaethol. Roedd yn dweud mai'r swyddogaethau hyn oedd 'y maes lle mae'r brys mwyaf o ran bod angen penderfynu ynghylch yr opsiynau a restrais ar gyfer diwygio, a gweithredu arnynt'. Roedd yr adroddiad yn datgan bod y trefniadau ar gyfer gwella ysgolion yng Nghymru ar y pryd yn 'ddifrifol o anfoddfaol'. Roedd yn cynnig amrywiaeth o opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau gwella ysgolion trwy gonsortia rhanbarthol. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar adolygiad Hill a'r opsiynau a gyflwynwyd rhwng mis Mehefin a mis Medi 2013<sup>5</sup>.
- 5 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol** ym mis Chwefror 2014. Mae'r model yn amlinellu'r weledigaeth a'r trefniadau ar gyfer pedwar consortiwm rhanbarthol, wedi eu cyfansoddi'n ffurfiol, yn ogystal â swyddogaethau pob haen (ysgolion, awdurdodau lleol, a chonsortia rhanbarthol) yn y system addysg. Cytunodd awdurdodau lleol i fabwysiadu'r Model Cenedlaethol a'i weithredu bob yn dipyn o 1 Ebrill 2014.
- 6 Mae'r awdurdodau lleol wedi datblygu gwahanol strwythurau ffurfiol ar gyfer eu consortia. Mae Consortiwm Canol De Cymru (CCD), Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) a Gwasanaeth Effeithiolrwydd Ysgolion Gogledd Cymru (GwE) yn gydbwyllgorau<sup>6</sup> ac mae Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) yn gwmni cyfyngedig trwy warant. (Mae mwy o wybodaeth am ffurf y consortia ar gael yn **Atodiad 3**). Mae'r pedwar consortia rhanbarthol yn cynnwys yr awdurdodau lleol a ddangosir yn **Ffigur 1**.
- 7 Disgwylir i awdurdodau lleol ddiogelu eu cyllid ar gyfer gwella ysgolion a'i drosglwyddo i'r consortia rhanbarthol. Cyfrifodd y Model Cenedlaethol y byddai hyn yn arwain at gyllid craidd o £18.55 miliwn yn 2014-15.
- 8 Nid yw gwella ysgolion yn derm manwl gywir. Yn yr ystyr culaf, fe'i defnyddiwyd i gyfeirio at waith rhai o'r cynghorwyr sy'n ymweld ag ysgolion, yn herio ysgolion ynghylch eu cynnydd, ac yn eu cynorthwyo a'u cynghori ar eu cynlluniau gwella. Yr enw blaenorol ar y cynghorwyr hyn oedd 'arweinwyr system', ond rhoddwyd pwyslais newydd i'r swyddogaeth wrth ddatblygu'r Model Cenedlaethol, a newidiwyd yr enw i 'gynghorwyr herio'. Yn yr ystyr ehangach, mae gwella ysgolion hefyd yn dibynnu ar effeithiolrwydd y cymorth i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol, y gwaith i fynd i'r afael â phresenoldeb a phroblemau ymddygiad, ansawdd yr addysgu'r dysgu, addasrwydd adeiladau'r ysgol, yr ymgysylltiad â rhieni a chymunedau a llawer mwy. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno i'r consortia rhanbarthol roi'r pwyslais ar herio a chynorthwyo ysgolion yn y lle cyntaf, ond disgwylir y bydd materion eraill gan gynnwys cymorth Adnoddau Dynol, hyfforddiant llywodraethwyr ysgolion, cymorth i ddisgyblion 14 i 19 oed, cyfnod sylfaen a rhai meysydd eraill yn cael eu trosglwyddo i'r consortia.

4 **Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol**, Robert Hill Consulting, Mehefin 2013.

5 **Dogfen Ymgynghori ar Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol**, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2013.

6 Mae adrannau 101 a 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (ac yn achos Swyddogaethau Gweithrediaeth adrannau 19 a 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Rheoliadau perthnasol a wnaed dan yr adrannau hyn) yn caniatáu i waith awdurdodau lleol gael ei gyflawni trwy amrywiaeth o drefniadau mewnol, ac, yn y cyd-destun hwn, trefniadau allanol gan gynnwys, a chan weithio ag, awdurdodau eraill. Yn benodol, mae'r pwerau hyn yn cynnwys y gallu i ddau neu fwy o awdurdodau gyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau ar y cyd, a phan fo hynny'n digwydd, i wneud hynny trwy gydbwyllgor, a/neu gan eu swyddogion.

Ffigur 1 – Y Consortia Addysg Rhanbarthol yng Nghymru




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru



- 9 Mae gwella deilliannau ysgolion yn broses gymhleth sy'n cynnwys llawer o randdeiliad. Y partneriaid allweddol, er nad yr unig rai, yw Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion a chonsortia addysg rhanbarthol (Ffigur 2).

Ffigur 2 – y System Gwella Ysgolion yn dangos cyfrifoldebau'r partneriaid allweddol



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 10 Ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio a yw trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer consortia rhanbarthol yn debygol o gyflwyno'r gwelliannau a fwriedir i gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol. Wrth adolygu datblygiad y consortia rhanbarthol, gwnaethom ganolbwyntio ar effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu yn seiliedig ar **The Good Governance Standard for Public Services**<sup>7</sup>. Mae crynodeb o fethodoleg yr adroddiad hwn wedi'i chynnwys yn **Atodiad 1**. Cynhaliwyd prif waith maes yr astudiaeth rhwng mis Awst 2014 a mis Ionawr 2015 mewn cydweithrediad ag Estyn, sydd wedi paratoi a chyhoeddi adroddiad arolwg thematig ar waith y consortia rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion<sup>8</sup>. Trwy weithio ar y cyd, bu'n bosibl rhannu a chynnwys yr hyn a ganfuwyd o safbwynt y ddwy asiantaeth. Mae adroddiad Estyn yn canolbwyntio ar y datblygiad o ran darparu gwasanaethau gwella i ysgolion. Mae prif ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad Estyn wedi'u cynnwys yn **Atodiad 2**.
- 11 Daethom i'r casgliad fod sylfeini'r gwasanaethau rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion yn cael eu sefydlu, ar ôl cychwyn ansicr, ac mae arwyddion cadarnhaol o gynnydd, ond mae gwendidau sy'n parhau i amharu ar ddatblygiad y system gyfan ac ar dulliau effeithiol o lywodraethu a rheoli cyllid y consortia rhanbarthol. Daethpwyd i'r casgliad hwn oherwydd y canfuwyd:
- a Bod y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol wedi cynnig fframwaith y cytunwyd arno'n eang ar gyfer ymagwedd ranbarthol o wella ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a consortia rhanbarthol wedi ymrwmo i'r ffordd hon o weithio ac mae rhai arwyddion cadarnhaol o ddatblygiad o ran yr her a ddarperir i ysgolion.
  - b Fodd bynnag, canfuwyd bod peth ansicrwydd yn parhau ynglŷn â natur a chwmpas y consortia, ac nad oedd pob perthynas rhwng partneriaid yn adlewyrchu'r angen i bob un o'r prif bartneriaid gydweithio er mwyn sicrhau gwelliant gyda'i gilydd. Mae diffyg cynllunio tymor canolig wedi bod hefyd a dim digon o bwyslais ar drefniadau i asesu gwerth am arian.
  - c Mae'r dulliau o lywodraethu'r consortia rhanbarthol yn datblygu ond canfuwyd bod diffyg capasiti, strwythurau rheoli anghyflawn, craffu annigonol ar drefniadau cyffredinol y consortia, gwendidau o ran rheoli ariannol a rheoli perfformiad a methiant i fod yn ddigon agored a thryloyw yn amharu ar y datblygiad.
- 12 Roedd timau gwaith maes Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn wedi cyflwyno sylwadau ar ddatblygiad yr astudiaeth i Lywodraeth Cymru ar wahanol gamau, ac i bob consortiwm rhanbarthol ar ddiwedd y gwaith maes. O ganlyniad, bu modd ystyried y materion a godwyd mor gyflym â phosibl.

7 **The Good Governance Standard for Public Services**, y Comisiwn Annibynnol ar Safonau Llywodraethu yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, Ionawr 2005.

8 **Gwella ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol**, Estyn, Mehefin 2015.

# Argymhellion

- 13 Nodir yr argymhellion sy'n codi o'r astudiaeth isod. Hefyd, mae'r adroddiad a gyflwynwyd gan Estyn i'r Gweinidog, sef yr adroddiad y cynhaliwyd y gwaith maes ar ei chyfer ar y cyd â staff Swyddfa Archwilio Cymru, yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae'r rhain wedi eu cynnwys gyda phrif ganfyddiadau adroddiad Estyn yn **Atodiad 2**.

## Argymhellion

### A1 Egluro natur a gweithrediad y consortia

Canfuwyd bod ansicrwydd parhaus ynghylch rhai agweddau ar natur y consortia rhanbarthol a'u cwmpas presennol ac yn y dyfodol (**paragraffau 2.2 i 2.20**). Rydym yn argymhell felly:

- Y dylai Llywodraeth Cymru gofnodi cyfrifoldebau statudol awdurdodau lleol, a chymryd cyngor cyfreithiol priodol, wrth ystyried newidiadau i'r swyddogaethau y mae'n disgwyl i'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol eu cyflawni.
- Y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarar'r Model Cenedlaethol er mwyn ei wneud yn llai cyfarwyddol o ran y strwythur o dan gydbwyllgorau neu fyrddau gan gadw pwyslais ar ddeilliannau.
- Y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ddatblygu a chytuno ar ddull gweithredu cyson ar gyfer swyddogaeth y consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru mewn ymyriadau gwella ysgolion er mwyn sicrhau bod pawb yn deall yr hyn y dylent gymryd rhan ynddo a bod yn gyfrifol amdano.
- Y dylai awdurdodau lleol egluro a yw gwasanaethau consortia i'w darparu ar y cyd neu a ydynt yn wasanaethau a gomisiynir (mae gwasanaethau a ddarperir dan drefniadau cydbwyllgor yn wasanaethau a ddarperir ar y cyd, ac nid yn wasanaethau a gomisiynir).

### A2 Canolbwyntio ar ddeilliannau trwy gynllunio tymor canolig

Canfuwyd bod pwyslais ar gamau byr dymor ac ansicrwydd ynghlŷn â dyfodol y consortia yn amharu ar ddatblygiad effeithiol y consortia rhanbarthol (**paragraffau 2.33 i 2.36; 3.16 i 3.17**). Rydym yn argymhell felly:

- Gan na fydd unrhyw weithgareddau posibl i ad-drefnu awdurdodau lleol yn cael eu gweithredu'n llawn tan 2020, y dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau tair blynedd ar gyfer datblygu, ehangu cwmpas a chyllido consortia rhanbarthol, yn gysylltiedig ag amcanion strategol priodol.

## Argymhellion

### A3 Datblygu mwy o berthnasau cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion

Roedd llawer o bartneriaid gwella ysgolion yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ond canfuwyd nad oedd hyn wedi arwain at feithrin perthnasau digon cydweithredol ([paragraffau 2.25 i 2.32](#)). Rydym yn argymhell felly:

- Y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r 'Dull Adolygu a Herio' presennol (pan fo Llywodraeth Cymru yn gofyn i gonsortia rhanbarthol egluro eu gweithredoedd) er mwyn sefydlu dull cynhwysfawr o 'adolygu system', a hwnnw'n ddull mwy cydweithredol ond cadarn, a fydd yn sicrhau bod yr holl bartneriaid yn y system yn rhannu datblygiadau, heriau a phroblemau yn agored.
- Y dylai consortia rhanbarthol ddatblygu trefniadau gwell ar gyfer rhannu arferion a chefnogi effeithlonrwydd (er enghraifft, gallai un consortiwm arwain y gwaith o ymdrin â phroblem neu fod â chyfrifoldeb swyddogaethol ar gyfer datblygu polisi).
- Y dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydnabod bod yr holl bartneriaid yn ddibynnol ar ei gilydd er mwyn cyflawni eu swyddogaethau gwella ysgolion a chytuno ar ddull o:
  - rannu gwybodaeth ac ymgynghori ar ddatblygiadau sy'n berthnasol i wella ysgolion;
  - datblygu perthynas gydweithredol sy'n rhannu atebolrwydd; a
  - chynnal adolygiadau o'r system gyfan, ac alinio dealltwriaeth a safbwynt y consortia rhanbarthol ar draws pob un o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru.

### A4 Datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r unigolion mwyaf dawnus

Mae'r consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi cael anawsterau wrth recriwtio uwch-arweinwyr addysg a chanfuwyd mai ychydig iawn o gamau a oedd wedi eu cymryd i ymdrin â hyn ([paragraffau 2.37 i 2.40](#)). Rydym yn argymhell felly:

- Y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag arweinwyr awdurdodau lleol i feithrin gallu a chapasiti yn y system er mwyn cefnogi datblygiad strategol a dulliau llywodraethu effeithiol.
- Y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio i wneud swyddi addysg arweiniol yn fwy deniadol, er mwyn denu'r arweinwyr mwyaf dawnus ar gyfer y system gwella addysg.
- Y dylai awdurdodau lleol gydweithio i gefnogi datblygiad proffesiynol yr uwch-arweinwyr a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad ar waith ar gyfer uwch-arweinwyr.

## Argymhellion

### A5 Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol

Er bod datblygiadau parhaus ar waith, canfuwyd nad yw consortia rhanbarthol wedi datblygu trefniadau llywodraethu a rheoli cyllid cwbl effeithiol hyd yn hyn ([paragraffau 3.2 i 3.36](#)). Rydym yn argymhell felly y dylai awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol:

- wella eu defnydd o hunanwerthuso ar gyfer eu perfformiad a'u trefniadau llywodraethu a'i ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gynllunio busnes ac i gefnogi eu hadolygiadau blynyddol o ddulliau llywodraethu er mwyn llywio eu datganiadau llywodraethu blynyddol;
- gwella eu dulliau rheoli perfformiad gan gynnwys cynllunio busnes yn well, defnyddio mesurau perfformiad eglur a mesuradwy, ac asesu gwerth am arian;
- sicrhau bod rheoli risg strategol yn rhan annatod o'u trefniadau llywodraethu a chyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar lefel y cydbwyllgor neu'r bwrdd;
- datblygu eu trefniadau rheoli ariannol i sicrhau bod prosesau cyllidebu, monitro ac adrodd ariannol yn cwmpasu'r holl incwm a gwariant perthnasol, gan gynnwys cyllid grant a wariwyd trwy awdurdodau lleol;
- datblygu trefniadau craffu ar y cyd ar gyfer y consortia yn gyffredinol, yn ogystal â chraffu ar berfformiad awdurdodau unigol, a allai gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol;
- sicrhau bod y trefniadau a'r penderfyniadau y mae consortia yn eu gwneud yn agored ac yn dryloyw;
- cydnabod ac ymdrin ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl; a phan fo gan staff fwy nag un cyflogwr, dylai consortia rhanbarthol sicrhau bod y llinellau atebolrwydd yn eglur a bod yr holl staff yn ymwybodol o'r swyddogaethau a gyflawnir; a
- datblygu strategaethau cyfathrebu cadarn ar gyfer ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol.

## Rhan 1

Ar ôl cyfnod o ansicrwydd, mae sylfeini'r system gwella ysgolion yn dechrau sefydlu ac mae arwyddion cadarnhaol o gynnydd mewn rhai gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol





- 1.1 Mae'r adran hon yn amlygu rhai meysydd lle bu cynnydd yn natblygiad consortia rhanbarthol a'r system gwella ysgolion.

### Cyn cyhoeddi'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, roedd gwahaniaethau sylweddol wedi datblygu yng nghwmpas, ymagwedd a threfniadau'r gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol

- 1.2 Dechreuodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)<sup>9</sup> weithio trwy bump consortia rhanbarthol<sup>10</sup> yn y flwyddyn 2000 i ddatblygu dulliau gweithredu cyffredin ar gyfer gofynion rheoli perfformiad athrawon. Roedd y trefniadau cydweithio hyn a oedd wedi hen sefydlu hefyd yn gysylltiedig â rhwydweithiau amrywiol swyddogion awdurdodau lleol. Ar ôl hyn, ad-drefnodd rhwydwaith cyfarwyddwyr CCAC yn bedwar rhanbarth, gan ddatblygu'n fforymau ar gyfer cydweithio'n rhanbarthol ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag addysg. Y cyfarwyddwyr addysg yw'r swyddogion sy'n atebol i'w hawdurdodau lleol am swyddogaethau addysg statudol yr awdurdodau (**Arddangosyn 1**).
- 1.3 Mae'r strwythurau ar gyfer rheoli gwasanaethau addysg yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Er enghraifft, mewn rhai awdurdodau lleol, mae addysg yn rhan o adran plant a phobl ifanc ynghyd â gwasanaethau cymdeithasol i blant, ac i eraill mae addysg wedi aros ar wahân. Cyn sefydlu consortia rhanbarthol, roedd cwmpas a threfniadaeth gwasanaethau gwella ysgolion yn amrywio ac roedd rhai amrywiadau sylweddol yn lefelau cyllido a staffio'r gwasanaethau. Roedd ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion yn amrywio hefyd; yn ystod cylch arolygu Estyn 2010-2013, roedd yr Arolygiaeth o'r farn bod safon y gwasanaethau gwella ysgolion yn wych mewn dau awdurdod lleol, yn dda mewn pump, yn ddigonol mewn 10 ac yn anfodddhaol mewn pum awdurdod.
- 1.4 Pan gyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ym mis Chwefror 2011, ei fod yn disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion trwy gonsortia rhanbarthol, y rhwydweithiau CCAC a wnaeth y gwaith paratoi i ddatblygu'r dull rhanbarthol o weithio. Er enghraifft, yng ngogledd Cymru, ymgwymerodd rhwydwaith CCAC â'r gwaith o ddatblygu achos busnes ar gyfer gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol a datblygu'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr awdurdodau ar gyfer gwasanaeth ar y cyd y cytunwyd arno gan eu hawdurdodau lleol.
- 1.5 O 2011 i 2013, datblygodd pob rhanbarth ei gynlluniau ei hun ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion cydweithredol rhanbarthol, gyda gwahanol strwythurau llywodraethu a gwahanol ystod o wasanaethau wedi'u cynnwys. Yn ne-ddwyrain Cymru, penderfynodd yr awdurdodau lleol sefydlu eu Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) fel cwmni wedi ei gyfyngu gan warant. Yng nghanol de Cymru, sefydlodd yr awdurdodau lleol Gonsortium Canol De Cymru (CCD) fel cyd-bwyllgor ffurfiol i weithredu gyda dau faes gwasanaeth gwahanol, sef Gwasanaeth Addysg ar y Cyd a gwasanaeth 'LINKS' i ddarparu cymorth i ysgolion. Mae'r grŵp o awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru a grŵp canol a gorllewin Cymru wedi aros yn gyson, ond bu newidiadau yn y grwpiau eraill, wrth i Gaerffili ymuno â rhanbarth de-ddwyrain Cymru a Chaerdydd ymuno â rhanbarth Canol De Cymru.

9 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) yw'r grŵp proffesiynol o swyddogion awdurdodau lleol sy'n atebol am swyddogaethau addysg statudol ym mhob un o'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

10 Cyfeirir at gonsortia CCAC yn yr adroddiad hwn drwy eu galw'n rhwydweithiau CCAC er mwyn eu gwahaniaethu o'r consortia mwy ffurfiol a lywodraethir gan gyd-bwyllgor neu fwrdd cwmni.

## Arddangosyn 1 – Y fframwaith statudol ar gyfer y system gwella ysgolion

Roedd **Deddf Addysg 1944** yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnig addysg am ddim i bawb. Cadarnhawyd y ddyletswydd hon yn **Neddf Addysg 1996**, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu 'digon o ysgolion mewn 'nifer, math ac offer' i gynnig addysg sy'n briodol i oedran, gallu a dawn disgyblion. Roedd Deddf 1996 hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu safonau gwell mewn ysgolion a phenodi unigolyn addas i fod yn brif swyddog addysg yr awdurdod.

Roedd **Deddf Safonau a Fframwaith 1998** yn ehangu ar Ddeddf 1996 ac yn ychwanegu dyletswydd i awdurdod lleol 'hybu safonau uchel mewn ysgolion cynradd ac uwchradd'. Roedd **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus'.

Mae dyletswyddau statudol ysgolion wedi eu pennu mewn amrywiaeth o ddeddfwriaeth gan gynnwys **Deddf Addysg 2002**, sy'n nodi y bydd y corff llywodraethu yn cynnal yr ysgol gyda'r bwriad o hybu safonau uchel o gyflawniad addysgol yn yr ysgol. Mae **Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014** yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion baratoi cynlluniau datblygu tair blynedd sy'n dangos eu blaenoriaethau gwella.

Trosglwyddodd **Deddf Llywodraeth Cymru 1998** y swyddogaethau addysg a hyfforddiant o lywodraeth y DU i'r cynulliad datganoledig ac wedi hynny i Weinidogion Cymru gan **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**.

Diwygiodd **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013** bwerau awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn y broses o weithredu ysgolion sy'n achosi pryder a gynhelir gan awdurdodau lleol. Roedd y Ddeddf hon hefyd yn diwygio pwerau Gweinidogion Cymru i gyflwyno canllawiau ffurfiol, rhoi cyfarwyddyd ac ymyrryd yn y gwaith o arfer swyddogaethau addysg.

Mae **Deddfau Llywodraeth Leol 1972 a 2000** yn galluogi dau neu fwy o awdurdodau lleol i gyflawni eu gwaith ar y cyd mewn dulliau amrywiol trwy gydbwyllgor a/neu eu swyddogion. Mae Adran 111 o Ddeddf 1972 yn rhoi pŵer caniatol i sefydlu cwmni (ond nid cwmni masnachu).

Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth yn rhoi dyletswyddau addysg ar gonsortia rhanbarthol.

Mae unrhyw swyddogaeth ar gyfer consortia rhanbarthol yn deillio dim ond o gytundebau a wneir gan yr awdurdodau sy'n cymryd rhan i gyflawni eu dyletswyddau ar y cyd trwy gonsortiw. Fodd bynnag, trwy wneud hynny, nid yw awdurdodau lleol yn cilio rhag y dyletswyddau statudol a roddir arnynt gan ddeddfwriaeth berthnasol.

## Er nad oedd yn ymdrin â'r holl faterion, roedd y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol yn rhoi cwmpas a fframwaith y cytunwyd arnynt yn fras, er mwyn cynnig dull o weithio rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion

- 1.6 Roedd adroddiad Robert Hill ym mis Mehefin 2013 yn nodi nifer o argymhellion o ran y gwasanaethau gwella ysgolion. Penderfynodd Llywodraeth Cymru na fyddai'n bosibl ystyried nifer o'r argymhellion yn llawn tan fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r Comisiwn ar Lywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus (Comisiwn Williams), a gyflwynodd adroddiad ym mis Ionawr 2014. Fodd bynnag, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn bod dau o'r argymhellion yn ddigon pwysig i gymryd camau arnynt ar unwaith ym mis Medi 2013. Yr argymhellion oedd:
- a awdurdodau lleol i beidio â darparu gwasanaethau gwella ysgolion; ac
  - b ariannu consortia rhanbarthol yn uniongyrchol trwy gymryd cyfran o'r Grant Cynnal Refeniw.
- 1.7 Roedd awdurdodau lleol yn gwrthwynebu'r newidiadau hyn gan fod awdurdodau lleol yn cadw'r dyletswyddau statudol am wella ysgolion, a byddai cymryd cyfran o'r cyllid yn golygu y byddai gan awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol heb fod â'r rheolaeth dros y cyllid perthnasol. Ym mis Hydref 2013, ar ôl trafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ysgrifenedig<sup>11</sup> yn amlinellu'r cytundeb â llywodraeth leol a fyddai'n diogelu'r cyllid ar gyfer gwella ysgolion yn y setliad cyllideb llywodraeth leol wrth i lywodraeth leol ddatblygu mwy o gysondeb ac unfurfiaeth ym modelau busnes y consortia. Dywedodd hefyd bod gwaith wedi dechrau i ddatblygu Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ar gyfer y consortia.
- 1.8 Gweithiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru, panel cynghori o arbenigwyr, a chynrychiolwyr o'r consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a phenaethiaid gyda'i gilydd i ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol i'w weithredu o 1 Ebrill 2014. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r model terfynol ar 17 Chwefror 2014. Mewn datganiad ysgrifenedig<sup>12</sup>, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau:
- 'Mae llywodraeth leol wedi ymrwymo i fabwysiadu'r model cenedlaethol a bydd hynny'n cael ei roi ar waith yn raddol o 1 Ebrill 2014 ymlaen. Bydd hyn yn digwydd ochr yn ochr â 'diogelu' y lefel gyfredol o wariant i gefnogi gwasanaethau rhanbarthol ar gyfer ysgolion. Cefais ymrwymiad ganddynt y byddant yn cytuno i gael tynnu cyfran o'r arian o'r Grant Cynnal Refeniw o 2015 ymlaen pe na baent yn llwyddo i gyflawni eu hymrwymiad.'

11 Datganiad Ysgrifenedig – Adolygiad ar Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol: Diweddariad, Gweinidog Addysg a Sgiliau, Hydref 2013.

12 Datganiad Ysgrifenedig – Y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, Gweinidog Addysg a Sgiliau, Chwefror 2014.

- 1.9 Roedd y Model Cenedlaethol yn nodi'r weledigaeth a'r egwyddorion ar gyfer y newid ac yn cynnwys:
- a cwmpas gwaith y consortia;
  - b cyfrifoldebau'r consortia a'r awdurdodau lleol;
  - c trefniadau llywodraethu;
  - ch atebolrwydd a pherthynas ag eraill;
  - d trefniadaeth y consortia;
  - dd cyllid ac arian; ac
  - e amserlenni.
- 1.10 Roedd cyd-gynhyrchu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol wedi arwain at fesur o gefnogaeth ar gyfer y fframwaith a rhoddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ymrwymiad y byddai awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r model bob yn dipyn o fis Ebrill 2014. Canfuwyd bod cefnogaeth gyson i brif elfennau fframwaith y Model Cenedlaethol ymhlith y rhai hynny y siaradwyd â nhw yn Llywodraeth Cymru, y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol.
- 1.11 Roedd y Model Cenedlaethol yn rhoi sail ar gyfer sefydlu'r cyllid craidd y byddai'r awdurdodau lleol yn ei ddarparu i bob consortiwm. Cyfrifwyd y cyllid craidd ar gyfer 2014-15 o elfennau o Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru, sef cyfanswm o £18.5 miliwn. I roi'r cyllid hwn mewn cyd-destun, roedd cyfanswm y gwariant refeniw y cyllidebwyd ar ei gyfer gan awdurdodau lleol ar gyfer addysg yn 2014-15 yn £2,630 miliwn ac mae'r elfen o hwn y disgwylir iddynt ei ddarparu i'r consortia yn ryw 0.7 y cant (Ffigur 3).
- 1.12 Yn ogystal â'r cyllid craidd i gonsortia, mae awdurdodau lleol yn nodi bod gwariant ychwanegol ar 'wella ysgolion' gan ddefnyddio ffrydiau cyllido eraill megis grantiau Llywodraeth Cymru. Yn ystod y pum mlynedd hyd at 2013-14, nododd yr awdurdodau lleol ostyngiad o 49 y cant yn eu gwariant net cyffredinol ar 'wella ysgolion' o £105 miliwn yn 2008-09 i £54 miliwn yn 2013-14 (Ffigur 4). Yn ystod y cyfnod hwn cynyddodd lefel dyrannu cyllid i ysgolion ym mhob awdurdod lleol a rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid grant ychwanegol i ysgolion, er enghraifft, trwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion, nad yw wedi ei gynnwys yn ffigurau gwariant yr awdurdodau lleol ar wella ysgolion.


Ffigur 3 – Yn 2014-15, roedd y cyllid craidd y cyllidebwyd ar ei gyfer i'r consortia rhanbarthol yn llai nag un y cant o wariant awdurdodau lleol ar addysg



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 1.13 Disgwylir hefyd i'r consortia rhanbarthol fod â swyddogaeth yn rhai o'r ffrydiau o wariant grant gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys rhai elfennau o'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, Grant Amddifadedd Disgyblion, Grant y Cyfnod Sylfaen a grantiau eraill. Gall Llywodraeth Cymru ddsbarthu'r rhain i gonsortia rhanbarthol (trwy eu hawdurdod lleol arweiniol), awdurdodau lleol neu ysgolion yn dibynnu ar y grant a'r rhanbarth. Nododd Llywodraeth Cymru bod y grantiau sy'n ymwneud â gwella ysgolion wedi dod i gyfanswm o ychydig dros £250 miliwn yn 2014-15 (Ffigur 5).
- 1.14 Rodd y Model Cenedlaethol yn nodi strwythur y cytunwyd arno ar gyfer y consortia. Roedd disgwyl i bob consortiwm fabwysiadu strwythur llywodraethu yn seiliedig ar gydbwyllgor neu gwmni wedi ei gyfyngu gan warant. Roedd y Model Cenedlaethol yn nodi swyddogaethau, cyfrifoldebau ac aelodau disgwylidig y cydbwyllgor a bwrdd gweithredol, ac yn disgrifio swyddogaethau disgwylidig y rheolwr gyfarwyddwr, y prif weithredwr arweiniol, a'r cyfarwyddwr addysg arweiniol. Roedd y Model yn darparu templed i'r consortia datblygol i weithio tuag ato.

Ffigur 4 – Rhwng 2008-09 a 2013-14 nododd awdurdodau lleol bod gostyngiad o bron i 50 y cant yn eu gwariant net ar wella ysgolion



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

1.15 Roedd y Model Cenedlaethol yn nodi dulliau o wella ysgolion yn seiliedig ar dystiolaeth. Roedd y dulliau'n cynnwys cylch blynyddol o wella ysgolion, pwysigrwydd cymorth ysgol-i-ysgol, hunanwerthuso gan ysgolion, cymorth a her effeithiol gan 'gyngorwyr herio' a datblygu system genedlaethol o gategoreiddio ysgolion. Mae'r dulliau hyn yn manteisio ar arferion da cydnabyddedig ac ni chawsant eu herio gan y rhanddeiliaid.



Ffigur 5 – Dyrannodd Llywodraeth Cymru grantiau gwella ysgolion gwerth mwy na £250 miliwn yn 2014-15

Cyllid Llywodraeth  
Cymru 2014-15  
(£ miliwn)

**Disgrifiad o grant Llywodraeth Cymru**

**Grantiau'n ymwneud â gwella ysgolion a fydd yn cael eu had-drefnu yn ystod 2015-16<sup>1</sup>**

Grant Refeniw y Cyfnod Sylfaen	97.9
Grant Effeithiolrwydd Ysgolion	28.1
Llwybrau Dysgu 14 - 19	10.2
Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig	10.0
Grant Cymraeg mewn Addysg	5.6
Grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr	1.1
Grant Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol	0.9
Cymorth Grant ar gyfer y Profion Darllen a Rhifedd	0.8
Cyllid Ychwanegol ar gyfer Ysgolion Band 4 a 5	0.5
Ymsefydlu	0.4
Grant Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch	0.2
<b>Is-gyfanswm y grantiau sydd i'w had-drefnu</b>	<b>155.8</b>

**Grantiau eraill sy'n ymwneud â gwella ysgolion**

Grant Amddifadedd Disgyblion	68.5
Her Ysgolion Cymru <sup>2</sup>	20.0
Rhaglen gymorth TGAU ar gyfer Cymraeg/Saesneg a Mathemateg	2.8
Cymorth â'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid	2.8
Rhaglen Dysgu fel Teulu	1.8
Datblygiad Proffesiynol Parhaus Dysgu yn y Gymru Ddigidol	0.3
Prosiect yr Arsyllfa Polisiâu	0.1
<b>Is-gyfanswm y grantiau eraill</b>	<b>96.1</b>

**Cyfanswm cyllid grant Llywodraeth Cymru yn ymwneud â gwella ysgolion 251.9**

Nodiadau:

1 Mae Llywodraeth Cymru yn cyfuno 11 o grantiau yn un grant newydd o'r enw 'Grant Gwella Addysg i Ysgolion' yn 2015-16. Cyfanswm y cyllid yn 2015-16 fydd £141 miliwn.

2 Mae cyllid Her Ysgolion Cymru i fyny at £20 miliwn yn 2014-15.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## Nod y Model Cenedlaethol oedd sefydlu trefniadau'r consortia erbyn mis Ebrill 2014 ond cafodd pob un o'r consortia anawsterau yn ystod y cyfnod pontio wrth symud i'r fframwaith newydd

- 1.16 Mae'r Model Cenedlaethol yn nodi 'er mwyn dechrau gwella deilliannau, y nod yw trosglwyddo, yn ystod y misoedd nesaf, i drefniadau'r consortia a nodir yn yr adroddiad hwn erbyn 1 Ebrill 2014'. Fodd bynnag, cydnabu'r Model na fyddai rhai o'r gwasanaethau gwella ysgolion yn cael eu darparu erbyn y dyddiad hwnnw. Canfuwyd nad oedd Llywodraeth Cymru a rhai o'r consortia a'r awdurdodau lleol wedi gwerthfawrogi'n llawn pa mor gymhleth oedd y newid i'r consortia ffurfiol na'r amser fyddai ei angen i roi'r newidiadau ar waith. Cafodd pob un o'r consortia rhanbarthol anawsterau wrth drawsnewid.
- 1.17 Mae defnyddio trefniadau cyd-bwyllgor neu fwrdd cwmni ffurfiol i arwain y gwaith o ddatblygu gwasanaethau gwella ysgolion yn arloesol ac nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw enghreifftiau cymharol. Nid oedd strwythurau o'r fath yn rhan o raglenni gwella ysgolion City Challenge yn Llundain, Manceinion neu'r Ardal Ddu<sup>13</sup>. Mae defnyddio cyd-bwyllgor i reoli gwasanaethau â grwpiau staff mawr, rhanddeiliaid ac ansicrwydd yn wahanol iawn i'r cyd-bwyllgorau yng Nghymru sydd wedi rheoli datblygiad prosiectau cyfalaf a rennir neu sydd wedi goruchwyllo rhai trefniadau trafniadaeth rhanbarthol. Er i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol, a arweiniwyd gan Vivian Thomas, feirniadu cymhlethdod y strwythurau addysg<sup>14</sup>, roedd y fframwaith a ddewiswyd ar gyfer y consortia rhanbarthol yn debygol o ychwanegu at gymhlethdodau o ran strwythur ac atebolrwydd.
- 1.18 Roedd gan bob awdurdod lleol wahanol lefelau a strwythurau ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion ac nid yw'n syndod bod dod â rhain at ei gilydd yn dasg gymhleth. Fel y nodwyd ym **mharagraff 1.12**, roedd awdurdodau lleol wedi bod yn gostwng eu gwariant hefyd ac yn sicrhau arbedion yn eu gwasanaethau gwella ysgolion. Mewn llawer o achosion, roedd hyn wedi cynnwys rhywfaint o ailstrwythuro o ran y cynghorwyr ysgolion.
- 1.19 Mewn rhai rhanbarthau, dechreuodd y gwaith o drosglwyddo staff i'r gwasanaethau gwella ysgolion yn 2012. Roedd Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) yn berthnasol wrth i staff drosglwyddo i awdurdod lleol newydd. Roedd y rheoliadau hyn yn cyfyngu rhywfaint ar allu'r consortia i ddewis y staff yr oeddynt am iddynt gael eu trosglwyddo i gonsortium. Mae'r rhan fwyaf o'r consortia wedi cael o leiaf un cylch arall o ad-drefnu ers sefydlu eu strwythur staffio gwreiddiol er mwyn gweithredu'r newid o arweinydd system i gynghorydd herio ac i ddatblygu strwythurau'r consortia.

<sup>13</sup> Roedd City Challenge yn rhaglen gan Lywodraeth y DU a gynhaliwyd o 2008 i 2011, a oedd wedi ei gynllunio i wella deilliannau addysg yn Llundain, Manceinion a'r Ardal Ddu. Roedd yr ymyriadau a ddefnyddiwyd wedi'u nodweddau gan grêd bod gan gydweithio ysgol-i-ysgol swyddogaeth ganolog wrth wella ysgolion; cydnabyddiaeth o bwysigrwydd arweinydd ysgol; a dull sy'n defnyddio llawer iawn o ddata o ymdrin â materion, a rhannu'r hyn a ddysgwyd.

<sup>14</sup> **Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru**, Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol, Mawrth 2011.

- 1.20 Roedd y Model Cenedlaethol yn egluro'r disgwyliad y byddai consortia yn datblygu cyd-bwyllgorau neu fyrddau cwmni ac roedd y rhain wedi eu sefydlu gan CCD ac GCA yn 2012, GwE yn 2013, ac ERW yn 2014. Roedd y pwyllgorau neu'r byrddau wedyn yn gallu mynd ati i arwain a gwneud y penderfyniadau angenrheidiol. Fodd bynnag, mae datblygu cyrff o'r fath, o awdurdodau lleol gwahanol iawn, yn bwyllgorau neu'n fyrddau cwbl effeithiol yn anorfod yn broses hirach na'u sefydlu yn y lle cyntaf.
- 1.21 Cafodd pob un o'r consortia drafferthion wrth greu eu timau arwain ac roedd ganddynt swyddi gwag neu benodiadau dros dro yn ystod y cyfnod o 2012 i 2014. Yn ystod y cyfnod pontio hwn, mae'r consortia wedi dibynnu'n helaeth ar gyfranogiad y cyfarwyddwyr addysg ac yn arbennig ar gyfarwyddwr arweiniol pob consortiwm. Rydym wedi gweld bod pob un o'r cyfarwyddwyr arweiniol yn cynnig cymorth ac arweiniad da i reolwyr gyfarwyddwyr y consortiwm. Mae gan y rheolwyr gyfarwyddwyr i gyd bellach weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth y maent yn ceisio ei ddatblygu, ond mewn dau ranbarth, nid oedd y weledigaeth yn cael ei rhannu'n gyfan gwbl gan y cyfarwyddwyr addysg ac arweinwyr awdurdodau lleol eraill.

## Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi dangos eu hymrwymiad i gefnogi ysgolion i wella trwy weithio rhanbarthol ac mae hyn wedi cynorthwyo'r gwaith datblygu

- 1.22 Mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac adolygiadau annibynnol wedi tynnu sylw at yr angen i wella cyrhaeddiad disgyblion yn sylweddol yng Nghymru. Cafwyd arweinyddiaeth gref gan Weinidogion o ran yr her i awdurdodau lleol ddatblygu gwaith rhanbarthol er mwyn darparu gwasanaethau gwella ysgolion mwy effeithiol ac effeithlon. Cefnogwyd yr arweinyddiaeth hon gan: gronfa o £1 milliwn fesul consortiwm yn 2012 i gefnogi'r trawsnewid; secondiad i grŵp cychwynnol o bedwar o bobl â phrofiad o swyddi arweiniol yn y maes addysg i'r Adran Addysg a Sgiliau, i ddarparu cyswllt a chymorth i'r pedwar consortia sy'n datblygu; a chynnydd mewn cyllid trwy grantiau penodol i gefnogi gweithgareddau gwella ysgolion.
- 1.23 Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r ymgyrch i wella cysondeb yn yr her a'r cymorth a roddir i ysgolion trwy ddarparu rhaglenni hyfforddiant cenedlaethol i'r cynghorwyr herio. Mae'r Gweinidog ac uwch-swyddogion wedi datblygu a chyflwyno digwyddiadau 'adolygu a herio' bob tymor i fonitro datblygiad y consortia yn ogystal ag ystod o gysylltiadau parhaus. Mae datblygiad y system genedlaethol o gategoreiddio ysgolion a'r canllawiau sy'n gysylltiedig â hi wedi bod o gymorth i'r consortia wella cysondeb y dull a ddefnyddir mewn ysgolion hefyd.
- 1.24 Cyfrannodd awdurdodau lleol, trwy gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhwydwaith CCAC, at y gwaith o gyd-gynhyrchu'r Model Cenedlaethol a gwnaethant ymrwymiad i weithio tuag at y model. Canfuwyd bod awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn gyffredinol yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad consortia. Canfuwyd bod aelodau etholedig a

swyddogion ym mhob rhanbarth yn ymrwymo i weithio'n rhanbarthol ac roeddynt yn cydnabod bod rhai problemau hanfodol wrth drawsnewid. Er enghraifft, roeddynt yn derbyn yn gyffredinol y byddai 'enillwyr a chollwyr' o ran y trefniadau ariannol ac roeddynt yn barod i rannu adnoddau staff awdurdodau lleol a gweithio ar y cyd i helpu i ddatblygu'r consortia.

- 1.25 Mae'r lefel hon o ymrwymiad i weithio'n rhanbarthol yn cynnig sylfaen bwysig a bydd yn cynorthwyo'r prosesau i wrthsefyll pwysau pellach yn y blynyddoedd sydd i ddod pan ellir disgwyl y bydd mwy o densiynau ynglŷn â chyllid. Er ein bod wedi canfod rhai anghysondebau yn effeithiolrwydd yr ymgysylltiad, gwelwyd, ar y cyfan, ysbryd cadarnhaol ac ymrwymiad i weithio'n rhanbarthol.
- 1.26 Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwelsom gynnydd, momentwm a datblygiadau ym mhob rhan o'r system, gan gynnwys: cyhoeddi Cymwys am Oes – strategaeth addysg Llywodraeth Cymru hyd at 2020; cyfres o areithiau gan Weinidogion gyda'r nod o gyfleu neges gydlynol ynghylch blaenoriaethau'r Llywodraeth; a datblygiadau yn nhrefniadau llywodraethu a darparu gwasanaethau consortia rhanbarthol. Roedd rheolwyr ac arweinwyr y consortia rhanbarthol i gyd yn gweithio'n galed i ddatblygu'r sefydliadau newydd. Rhoddodd y timau o Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn sylwadau ar lafar i bob consortiwm ar ôl y gwaith maes. Yn ddieithriad, derbyniwyd y sylwadau ac mewn llawer o achosion, mae'r consortia wedi gweithredu'n gyflym ar y materion a nodwyd.

## Mae rhai arwyddion o gynnydd yn yr her a'r cymorth i ysgolion ond mae angen mynd i'r afael â llawer o wendidau o hyd

- 1.27 Mae'r 'Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol' yn nodi y dylai 'arbenigedd rhagorol mewn dadansoddi a herio anghenion gwella ysgolion fod wrth wraidd' gwasanaethau gwella ysgolion. Atgyfnerthodd Llywodraeth Cymru swyddogaeth y consortia rhanbarthol yn Cymwys am Oes fel a ganlyn: 'Rôl consortia rhanbarthol yn y Model Cenedlaethol yw ymyrryd a herio. Mae'r her hon yn hollbwysig i sicrhau bod ysgolion yn gosod targedau uchelgeisiol ac ymestynnol i wella cyrhaeddiad dysgwyr.'
- 1.28 Mae'r adroddiad **Gwella ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol** gan Estyn yn nodi bod rhai arwyddion o gynnydd yn yr her i ysgolion ond mae llawer o wendidau sylweddol yn parhau. Mae prif ganfyddiadau Estyn wedi eu cynnwys yn **Atodiad 2** ond dyma rai o'r pwyntiau perthnasol:
  - a Er na all y gwelliannau cyffredinol yn safonau cyrhaeddiad disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf gael eu priodoli'n gyfan gwbl i ddatblygu consortia rhanbarthol, mae'r data cyhoeddedig yn adlewyrchu gwelliant graddol yng nghyrrhaeddiad disgyblion ar draws pob un o'r pedwar rhanbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cyflawni ar lefelau tebyg ar draws pob rhanbarth ond yng nghyfnod allweddol 4, mae mwy o amrywiad mewn lefelau deilliannau disgyblion. Mae perfformiad yn gyson uwch yn GWE ac ERW nag ydyw yn CCD a GCA, ac mae lefelau mwy o amddifadedd cymdeithasol yn y ddau ranbarth olaf. Mae deilliannau arolygu ysgolion yn eithaf tebyg ar draws y pedwar rhanbarth.

- b Mae'r consortia rhanbarthol wedi cryfhau eu trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer ymgynghorwyr her, yn enwedig ers Medi 2014, ac mae mwy o gysondeb yng ngwaith ymgynghorwyr her o ganlyniad. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau yn cael eu rhoi ar waith yn ddigon trylwyr bob amser ac nid yw adroddiadau cyn-arolygiad yn cyd-fynd yn ddigon agos â chanlyniad arolygiadau bob amser.
- c Nid oes gan yr un o'r consortia rhanbarthol ddull strategol cydlynus o leihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad. Nid yw'r consortia rhanbarthol wedi monitro pa mor dda y mae ysgolion yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn ddigon agos.
- ch Mae pob un o'r consortia wedi rhoi trefniadau addas ar waith gydag awdurdodau lleol ar gyfer rhannu gwybodaeth ddefnyddiol o lawer o feysydd gwasanaeth sy'n berthnasol i'w gwaith, fel anghenion dysgu ychwanegol, cynhwysiant cymdeithasol a lles, cyllid a chwynion. Fodd bynnag, nid oes gan yr un o'r consortia system wedi'i datblygu'n llawn ac a ddefnyddir yn gyson i gasglu, dadansoddi a rhannu gwybodaeth am gynnydd disgyblion ac ysgolion.
- d Yn gyffredinol, mae consortia rhanbarthol yn gwybod pa mor dda y mae llawer o'u hysgolion yn perfformio ar hyn o bryd trwy waith ymgynghorwyr her, ac fe gefnogir hyn trwy eu dadansoddiad o ddata cyrhaeddiad. Dywed y rhan fwyaf o benaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethol fod ymgynghorwyr her yn craffu'n fanwl ac yn deg ar berfformiad eu hysgol.
- dd Er bod ymgynghorwyr her yn gwybod ar y cyfan beth mae data asesu yn ei ddangos am berfformiad ysgol, nid yw hyn bob amser yn golygu eu bod yn adnabod yr ysgol yn ddigon da. Nid yw ymgynghorwyr her bob amser yn ddigon diagnostig o ran deall pam mae ysgol yn perfformio'n dda neu ddim. Nid yw ymgynghorwyr her bob amser yn cymryd rhan ddigonol mewn safoni asesiadau athrawon ac maent yn llai effeithiol yn arfarnu addysgu ac arweinyddiaeth na safonau. Fodd bynnag, nid yw gwendidau yng ngwaith ymgynghorwyr her mor gyffredin ag yr oeddent pan ddechreuodd y consortia ffurfioli yn 2012. Mae consortia rhanbarthol fel arfer yn darparu gwybodaeth briodol ac amserol i awdurdodau lleol am ysgolion sy'n achosi pryder.
- e At ei gilydd, mae consortia rhanbarthol yn well yn herio ysgolion ynglŷn â'u perfformiad presennol nag ydynt yn eu cefnogi i wella. Mae gan bob un o'r consortia ffofocs priodol cryf ar gefnogi gwelliant mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae cymorth ar gyfer ysgolion mewn llawer o feysydd dysgu eraill, fel pynciau nad ydynt yn rhai craidd, naill ai'n wan, yn anghyson neu nid ydynt ar gael. Mae'r consortia yn datblygu strategaethau i'w gwneud yn hwylus i ysgolion gefnogi ei gilydd, er mai dim ond CCD sy'n cynnwys pob ysgol yn ei strategaeth. Nid yw'r consortia yn monitro ac yn arfarnu'n ddigon da beth yw effaith eu cymorth i wella ysgolion, p'un a yw'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol neu'i frocera neu p'un a yw'n gymorth o un ysgol i'r llall y maent yn ei hwyluso.

## Rhan 2

Wrth i'r sylfeini gael eu sefydlu, mae'r gwendidau sy'n parhau yn llesteirio cyflymder y broses o ddatblygu system gwella ysgolion gwbl effeithiol ledled Cymru





- 2.1 Mae'r adran hon yn amlygu rhai agweddau ar y system gwella ysgolion nad ydynt yn gwbl effeithiol eto.

## **Mae methiant i adlewyrchu'n ddigonol ddealltwriaeth lawn a chyson o swyddogaeth awdurdodau lleol mewn cysylltiad ag addysg statudol wedi amharu ar ddatblygiad trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol**

**Nid yw'r trefniadau a gynigir yn y Model Cenedlaethol a gyhoeddwyd a'r fersiwn ddilynol yn adlewyrchu'r fframwaith statudol ar gyfer gwella ysgolion mewn ffordd gyson**

- 2.2 Mae'r Model Cenedlaethol yn cydnabod y bydd 'awdurdodau lleol yn cadw'r cyfrifoldebau statudol am ysgolion a gwella ysgolion'. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Model ar ôl trafodaeth hir â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chynghorwyr eraill ([paragraff 1.8](#)), ond nid oedd digon o werthfawrogiad o gyfrifoldeb statudol llywodraeth leol am wella ysgolion ([Arddangosyn 1](#)). Er bod y trefniadau a gynigir yn arloesol, methodd Llywodraeth Cymru â chael digon o gyngor cyfreithiol ynglŷn â'r model. Ar ôl ei gyhoeddi, cafodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyngor cyfreithiol a'i rannu â Llywodraeth Cymru. Arweiniodd hyn at gylchredeg adendwm na gyhoeddwyd, yn newid bwrdd gweithredol y consortia yn fwrdd cynghori. Fodd bynnag, nid oedd llawer o sôn am rolau'r cyfarwyddwyr addysg, y deiliaid portffolio a'r Prif Weithredwyr yn y Model Cenedlaethol ychwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r consortia wedi cael anhawster wrth sefydlu'r rolau hyn.
- 2.3 Mae'r fersiwn ddiwygiedig o'r Model Cenedlaethol sydd heb ei chyhoeddi yn cadw sawl un o gyfrifoldebau'r bwrdd cynghori wedi ei ailenwi, a allai fod yn amhriodol. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys: penderfynu ar y trefniadau sefydliadol ar gyfer y consortia; a'r swyddogaeth i oruchwylio a chefnogi a herio'r strategaeth, y cynlluniau busnes, y gyllideb, perfformiad, dulliau rheoli risg a'r trefniadau ar gyfer uwch-benodiadau'r consortia. Mae'r Model Cenedlaethol hefyd yn nodi mai cadeirydd y bwrdd cynghori fydd rheolwr llinell y rheolwr gyfarwyddwr ac y bydd y rheolwr gyfarwyddwr yn atebol iddo.
- 2.4 Mae'r Model Cenedlaethol yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch aelodaeth y byrddau cynghori, a ddylai gynnwys hyd at bum aelod o banel wedi eu cymeradwyo gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, a dylai o leiaf un ohonynt fod yn bennaeth presennol mewn ysgol leol. Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn llawn y goblygiadau o newid o fwrdd gweithredol i fwrdd cynghori. Nid oedd ychwaith wedi ystyried yr ystod o opsiynau sydd ar gael i gyd-bwyllgor neu fwrdd cwmni sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol i bennu ei is-bwyllgorau ei hun a'i drefniadau dirprwyo<sup>15</sup>. Mae'r diffyg eglurder o ganlyniad i hyn wedi ychwanegu at yr anawsterau y mae consortia wedi eu hwynebu wrth sefydlu'r trefniadau hyn ac wedi cyfrannu at yr oedi wrth sefydlu strwythurau priodol y consortia. Nid yw rhai o'r gwendidau wedi ei datrys yn llawn o hyd ac nid oedd Model Cenedlaethol a ddiwygiwyd yn briodol wedi ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2015.

<sup>15</sup> Adrannau 101 a 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

- 2.5 Canfuwyd bod consortia wrthi'n ceisio datblygu trefniadau llywodraethu priodol ond roeddynt o'r farn bod gofynion y Model Cenedlaethol yn cyfyngu arnynt. Mae un consortiwm, GCA, gyda chydysyniad Llywodraeth Cymru, wedi penderfynu'n ddiweddar, i beidio â chael bwrdd cynghori fel a nodir yn y Model Cenedlaethol. Yn hytrach, bydd yn penodi rhai o'r aelodau y disgwylir iddynt fod ar y bwrdd cynghori yn gyfarwyddwyr anweithredol ar fwrdd y cwmni a chydabod y 'Grŵp Gweithredol ar y Cyd' (yn cynnwys cyfarwyddwyr addysg ac aelodau arweiniol y cabinet) yn grŵp cydgysylltu ar gyfer comisiynu a monitro GCA, ond byddant y tu allan i strwythur GCA. Mae GwE wedi penderfynu cydnabod ei rwydwaith CCAC o gyfarwyddwyr addysg yn fwrdd rheoli, ond nid yw oedd wedi datblygu'r cylch gorchwyl a'r trefniadau yn llawn erbyn diwedd mis Ionawr 2015.
- 2.6 Mae gofyniad yn y Model Cenedlaethol i Lywodraeth Cymru gymeradwyo cynlluniau busnes y consortia. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon yn rhoi digon o bwys i'r sefyllfa statudol, sef y dylai'r cyd-bwyllgorau, neu fyrdau'r cwmnïau, benderfynu ar eu cynlluniau busnes eu hunain. Mae'n bosibl y gallai Llywodraeth Cymru fod eisiau gwneud sylwadau arnynt.
- 2.7 Roedd y methiant i werthfawrogi'n llawn goblygiadau cyfreithiol gweithio'n rhanbarthol trwy gonsortia wedi arwain at fethiant i gydnabod y byddai'n anodd i Lywodraeth Cymru rannu data â'r consortia ac y byddai angen mynd i'r afael â hyn.
- 2.8 Ni chynrychiolwyd yr ysgolion ffydd yn ddigonol yn y trafodaethau ar ddatblygu'r Model Cenedlaethol. Ni chafodd cyfarwyddwyr addysg Esgobaethol eu cynnwys ac ni ymgynghorwyd â nhw ynglŷn â datblygiad y Model Cenedlaethol nac ar fentrau megis Her Ysgolion Cymru er gwaethaf eu swyddogaeth sylweddol a ffurfiol mewn addysg yng Nghymru.

**Canfuwyd bod dryswch ynghylch pa un a oedd consortia rhanbarthol wedi'u comisiynu gan awdurdodau lleol neu a oeddent yn darparu gwasanaethau ar y cyd ar ran awdurdodau lleol yn cyfrannu at anghysondebau o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau**

- 2.9 Y rheswm dros rai o'r anawsterau a gafodd consortia ac awdurdodau lleol wrth sefydlu dulliau llywodraethu priodol oedd y ffaith bod anghysondeb ynglŷn â natur y consortia. Mae rhai swyddogion Llywodraeth Cymru, staff consortia a chyfarwyddwyr a chynghorwyr awdurdodau lleol yn ystyried y consortia rhanbarthol yn endidau ar wahân sy'n cael eu comisiynu gan awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion. Mae eraill yn ystyried y consortia yn ddull ar gyfer cydweithio rhwng awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau ar y cyd. Canfuwyd bod y gwahanol safbwyntiau hyn yn cyfrannu at ddryswch yn y consortia ynglŷn â phwy oedd yn rheoli, yn goruchwyllo ac yn gwneud penderfyniadau ar ran y consortia; a phwy oedd yn gyfrifol am fonitro, herio a chraffu ar waith y consortia.
- 2.10 Mae polisi Llywodraeth Cymru 2014, **Cymwys am Oes**, yn nodi'r amcanion strategol ar gyfer addysg i blant 3 i 19 oed yng Nghymru hyd at 2020. Mae'r polisi yn nodi bod 'rôl awdurdodau lleol yn y Model Cenedlaethol yn glir – fel y corff sy'n ddemocrataidd atebol maen nhw'n hanfodol fel cydwybod y system, ond mae'r

Model Cenedlaethol hefyd yn glir ynghylch eu rôl fel comisiynwyr yn hytrach na darparwyr'. Mae hyn yn adlewyrchu'r syniad bod consortia yn endidau ar wahân i awdurdodau lleol, ond gan fod yr aelodau o'r cyd-bwyllgor neu fwrdd y cwmni sy'n pleidleisio yn cynnwys neb ond cynrychiolwyr awdurdodau lleol, mae hyn yn camgynrychioli'r sefyllfa.

- 2.11 Yn amlwg, nid yw consortia â chydbwyllgorau (CCD, ERW a GwE) wedi'u comisiynu gan awdurdodau lleol. Yn hytrach, y consortia yw'r cyfrwng y mae'r awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth a rennir drwyddynt. Mae'r consortiwm sydd ar ffurf cwmni, GCA, yn nes at wasanaeth a gomisiynir gan fod y cwmni yn endid cyfreithiol ar wahân, er bod yr awdurdodau lleol yn berchen arno, ac nid yw cyfarwyddwyr bwrdd y cwmni yn aelodau cabinet sydd â chyfrifoldeb dros addysg.
- 2.12 Canlyniad hyn ar gyfer consortia'r cydbwyllgorau yw dealltwriaeth nad yw'r rheiny sydd â chyfrifoldeb statudol wedi'u gwahanu oddi wrth y consortia, ond yn hytrach, maent yn rhan o arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth. O ran sefyllfa lled-gomisiynol GCA, gellir tybio'n fwy priodol bod aelod arweiniol y cabinet a'r cyfarwyddwr y tu allan i reolaeth ac arweinyddiaeth y consortia a'u bod yn gyfrifol am arwain y gwaith 'comisiynu' ar gyfer eu hawdurdodau, yn unigol ac ar y cyd. Mae'r Model Cenedlaethol yn pennu y dylai awdurdodau lleol 'benodi swyddog arweiniol ('cleient deallus') fel y prif bwynt cyswllt â'r consortiwm rhanbarthol' ond nid yw hwn yn ddisgrifiad digonol o'r rolau angenrheidiol.

## Nid yw Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol wedi sefydlu ymagwedd gyson tuag at eu cwmpas, eu trefniadau na'u swyddogaeth hyd yn hyn

Mae'r gwahaniaethau sylweddol rhwng trefniadaeth consortia rhanbarthol yn adlewyrchu i raddau helaeth wahaniaethau daearyddol, ieithyddol, addysgol a gwahaniaethau o ran perfformiad ac nid yw'r gwahaniaethau hyn yn gyfrifol am y gwahaniaethau yng nghyflymder y newid

- 2.13 Mae'r pedwar consortia wedi datblygu'n wahanol (*Atodiad 3*). Mae'r ddau ranbarth sy'n llai yn ddaearyddol, sef CCD ac GCA, yn rhoi llai o bwyslais ar drefniadau 'hwb' ar gyfer paru o awdurdodau, tra bod y trefniant hwn yn bwysicach i'r ddau ranbarth sy'n fwy gwasgaredig yn ddaearyddol, sef ERW a GwE. Mae trefniant hwb hefyd yn gymorth i adnabod yr amrywiaeth yn y defnydd o'r Gymraeg fel prif iaith, sy'n haws darparu ar ei gyfer mewn trefniant hwb na thrwy weithredu ar draws y ranbarth cyfan.
- 2.14 Yn y de a'r de-ddwyrain, roedd cyfran uwch o awdurdodau addysg lleol yr ystyriwyd eu bod yn rhai nad ydynt yn gweithredu'n dda ac a roddwyd yng nghategoriâu 'mesurau arbennig' neu 'gamau dilynol' ar ôl arolygiadau gan Estyn. Yn y rhanbarthau hyn, gwelwyd ymrwymiad cyflymach i gyflwyno gwasanaethau trwy gonsortia rhanbarthol ac ehangu cwmpas y consortia. Er enghraifft, mae GCA wedi datblygu'r gwasanaeth brocera a chefnogaeth mwyaf o ran cynhyrchion a chymorth ychwanegol, ac mae CCD wedi sianelu'r gwariant grant mwyaf trwy'r

consortiwm. Yn rhanbarthau canolbarth a gorllewin a gogledd Cymru, roedd gan rai o'r awdurdodau lleol wasanaethau mwy effeithiol ac roedd yn ddealladwy eu bod yn fwy cyndyn i drosglwyddo'r gwasanaethau i drefniadau newydd, a oedd heb eu profi ac yn brin o gapasiti a gallu.

- 2.15 Er bod eu hamheuron yn ddealladwy, a'i bod yn briodol i bob rhanbarth gynnal arfarniadau achos busnes grymus er mwyn llywio unrhyw newidiadau i wasanaethau, gallai'r consortia wneud mwy i ddatblygu eu capasiti i wneud gwaith o'r fath a chynyddu cyflymder y newid.
- 2.16 Er bod gwahaniaethau yn strwythurau'r pedwar consortia, daethom i'r casgliad nad y trefniadau strwythurol oedd prif achos y gwahaniaethau yng nghyflymder y newid.

### **Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn anghyson o ran ei defnydd o gonsortia mewn rhai mentrau i gefnogi gwasanaethau gwella ysgolion**

- 2.17 Goblygiad y cytundeb ar y Model Cenedlaethol oedd bod Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r consortia rhanbarthol arwain y broses o gyflwyno'r gwasanaethau gwella i ysgolion. Fodd bynnag, rhan fechan a roddwyd i'r awdurdodau lleol neu'r consortia ym mhenderfyniad Llywodraeth Cymru i lansio menter Her Ysgolion Cymru ym mis Chwefror 2014 er mwyn hybu perfformiad hyd at 40 o ysgolion uwchradd a oedd yn tangyflawni cyn i'r fenter gael ei chyhoeddi. Roedd nifer o gyfarwyddwyr addysg ac arweinwyr consortia yn ystyried bod hwn yn gam drislyd a oedd yn tanseilio'r dull o weithio a nodwyd yn y Model Cenedlaethol.
- 2.18 Ar ôl y cyhoeddi'r rhaglen, roedd yn rhaid datrys materion megis penodi grŵp penodol o gynghorwyr herio, y trefniadau ariannol a'r trefniadau cyfathrebu gyda'r consortia a swyddogaeth y consortia mewn cysylltiad â'r ysgolion a enwyd ar gyfer Her Ysgolion Cymru. Er bod dymuniad Llywodraeth Cymru i gymryd camau pendant i ysgogi newid yn ddealladwy, gwelwyd bod nifer o swyddogion y consortia a'r awdurdod lleol yn teimlo y gallai'r ffordd y cafodd y fenter ei lansio fod wedi cynnwys consortia mewn modd mwy effeithiol. Gwelwyd bod consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol hefyd yn pryderu am achlysuron eraill pan oeddent yn synhwyro nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ddigon ynghylch y ffordd y byddai mentrau cenedlaethol yn cysylltu â gwaith y consortia, er enghraifft y Rhaglen Gymorth Genedlaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd<sup>16</sup>.

### **Mae cwmpas disgwyliedig gwaith y consortia yn parhau i ymestyn, gan gyflwyno heriau i ddatblygiad y consortia**

- 2.19 Roedd y Model Cenedlaethol yn egluro cwmpas disgwyliedig y consortia, gan gyfleu safbwynt cymharol gul a oedd yn canolbwyntio ar gynorthwyo a herio ysgolion, gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen, a chyrtsiau i ddysgwyr 14 i 19 oed. Roedd rhai meysydd cysylltiedig megis hyfforddi llywodraethwyr, cyngor adnoddau dynol ac alinio trefniadau Cymraeg Mewn Addysg wedi'u cynnwys hefyd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi £200,000 o gyllid i bob consortiwm ar gyfer gwaith i wella presenoldeb.

<sup>16</sup> Lansiodd Llywodraeth Cymru'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol ym mis Ionawr 2013 a dyfarnodd mai Ymddiriedolaeth Addysg CfBT a fyddai'n rhedeg y rhaglen. Mae'r rhaglen hon yn cynnig cymorth arbenigol, ychwanegol i helpu athrawon, penaethiaid a chynorthwyrwyr dysgu ac addysgu i weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn effeithiol.

2.20 Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gamau yn dilyn ymgynghoriad ar godi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog mai'r consortia addysg rhanbarthol fyddai'n gyfrifol am yr elfen o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o fis Ebrill 2015. Nid yw'n glir a oes modd i Lywodraeth Cymru bennu swyddogaeth ar gyfer consortia rhanbarthol heb fod y consortia yn cytuno i hynny. Eu tasg hwy fydd sicrhau cymorth strategol a chydlynol, sy'n cael effaith wirioneddol, seiliedig ar dystiolaeth, ar addysg plant sy'n derbyn gofal. Gan fod plant sy'n derbyn gofal o bosibl yn mynychu ysgolion arbennig neu ddarpariaeth y tu allan i ysgolion prif ffrwd y rhanbarth, bydd hyn yn gofyn ymestyn cwrpas y consortia yn sylweddol mewn amser byr iawn. Mae cyhoeddiadau ac adroddiadau eraill yn cynnwys swyddogaethau ychwanegol y disgwylir i gonsortia eu hysgwyddo mewn cysylltiad â datblygu'r cwricwlwm cenedlaethol a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

## Nid yw amcanion ariannol Llywodraeth Cymru yn glir ac nid oes digon o bwyslais ar asesu gwerth am arian ar draws y system

- 2.21 Yn ystod araith ym mis Tachwedd 2011, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd bod awdurdodau lleol ar y cyd wedi gwario oddeutu £43 miliwn ar wella ysgolion yn 2010-11, sef cyfradd o £80 y disgybl. Dywedodd 'Yn seiliedig ar y modelu yr wyf wedi ei weld hyd yn hyn, mae arbedion sylweddol y gellir eu defnyddio i gefnogi ysgolion yn well a gwella safonau. Rwy'n disgwyl i'r arbedion hyn gael eu cyflawni' ac 'nid yw ailddyraniad o £20 miliwn yn afresymol'. Dywedodd, 'fy her i ym mhob rhanbarth yw penderfynu sut i newid pwyslais yr adnoddau hyn, naill ai eu cyfeirio'n syth i'r rheng flaen, neu eu defnyddio'n uniongyrchol i wella'r safonau yn yr ysgolion sy'n wynebu'r heriau mwyaf'.
- 2.22 Nid yw'n amlwg eto a yw darparu gwasanaethau gwella ysgolion trwy gonsortia rhanbarthol yn golygu gwasanaethau mwy effeithlon. Er bod Llywodraeth Cymru'n monitro lefel y cyllid sy'n cael ei ddyrannu i ysgolion, gwelwyd nad oedd yn mynd ati'n weithredol i fonitro effeithlonrwydd trefniadau'r consortia. Fel y nodwyd ym [mharagraff 1.12](#), dengys datganiadau awdurdodau lleol ostyngiad sylweddol mewn 'gwariant ar wella ysgolion'. Nid yw gweithio'n rhanbarthol wedi arwain at unrhyw ostyngiad yn nifer y swyddi cyfarwyddwyr addysg ac mae pedair swydd rheolwr gyfarwyddwr ychwanegol wedi eu creu. Gwelwyd bod nifer o awdurdodau lleol wedi cael gwared ar swyddi 'penaethiaid gwella ysgolion' yn ystod 2011-13 ond mae swyddi tebyg wedi eu sefydlu eto ers hynny fel bod gan yr awdurdod lleol swyddog arweiniol i ryngweithio gydag uwch neu brif gynghorydd herio perthnasol y consortiwm. Mae'r rhan fwyaf o gonsortia wedi gwario'n sylweddol ar gost diswyddo aelodau staff a drosglwyddodd o awdurdodau lleol ac nad oedd lle iddynt yn eu strwythurau. Er enghraifft, dengys cyfrifon archwiliedig 2013-14 GwE bod £781,000 wedi'i wario ar becynnau ymadael a ariannwyd gan gyfraniadau gan bob awdurdod lleol cychwynnol. Gwelwyd nad oedd Llywodraeth Cymru na chonsortia rhanbarthol wedi asesu a oedd y newidiadau hyn mewn gwariant yn dangos bod gweithio trwy gonsortia yn fwy costeffeithiol nac wedi sefydlu unrhyw feini prawf er mwyn gwneud hynny.

- 2.23 Mae cyllid tymor byr i rai mentrau, megis Her Ysgolion Cymru, wedi cael effaith ar gyllid y consortia. Cafodd rhai gwasanaethau a chymorth a fyddai wedi eu hariannu gan gyllidebau craidd consortia eu disodli gan gyllid Her Ysgolion Cymru. Er bod cyllid ychwanegol ar gael o ganlyniad i Her Ysgolion Cymru, gwelwyd na chafodd graddau ac effaith y newid hwn lawer o ystyriaeth ariannol gan gonsortia rhanbarthol na Llywodraeth Cymru.
- 2.24 Mae'r amcanion ar gyfer y canlyniadau lefel uchel yn glir<sup>17</sup> ac mae Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol yn tracio cynnydd ysgolion unigol a grwpiau o fyfyrwyr. Fodd bynnag, nid yw'r consortia rhanbarthol na Llywodraeth Cymru'n rhoi digon o sylw i'r fethodoleg sydd ei hangen er mwyn asesu effeithiolrwydd cymharol ymyriadau a gwariant penodol; pa un a yw un dull yn well nag un arall; neu pa un a yw un fenter tymor hir yn fwy effeithiol nag un arall. Bydd hyn yn llesteirio ymdrechion i asesu gwerth am arian y newid i weithio'n rhanbarthol trwy gonsortia.

## Nid yw'r berthynas rhwng y prif randdeiliaid yn adlewyrchu'r dull o weithio mewn partneriaeth yn ddigon cryf

- 2.25 Cafodd datblygiad y consortia ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru fel dull o wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau gwella ysgolion. Roedd troi at gonsortia yn adlewyrchu diffyg hyder Llywodraeth Cymru bod modd i awdurdodau lleol, ar eu pen eu hunain, gyflawni'r gwelliannau mewn ysgolion yr oedd y rhanddeiliaid i gyd yn cytuno bod eu hangen.
- 2.26 Roedd y datganiad gan y Gweinidog i gyhoeddi'r Model Cenedlaethol yn nodi y byddai'r Llywodraeth yn 'tynnu cyfran o'r arian o'r Grant Cynnal Refeniw o 2015 ymlaen pe na [bai'r consortia] yn llwyddo i gyflawni eu hymrwymiad.'<sup>18</sup> Mae'r bygythiad hwn o dynnu arian yn ôl yn parhau.
- 2.27 Mae disgwyliadau Llywodraeth Cymru o'r consortia yn uchel iawn. Ond mae'r trefniadau'n newydd a heb eu profi ac mae rhai awdurdodau lleol wedi bod yn gyndyn i drosglwyddo cyfrifoldebau, yn arbennig cyn sefydlu capasiti arweinyddiaeth a rheolaeth lawn y consortia. (paragraff 2.37).
- 2.28 Nid yw cyd-gynhyrchu'r Model Cenedlaethol wedi arwain at ddatblygu perthynas gydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru, y consortia a'r awdurdodau lleol lle rhannir cryfderau, gwendidau, datblygiadau a phroblemau, a lle gwneir ymdrech i ddod o hyd i'r atebion gorau. Roedd rhai swyddogion o'r awdurdod lleol a'r consortia rhanbarthol yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru yn gwrando ar y consortia bob amser a bod lefelau ymddiriedaeth yn isel. Mae'r diffyg hyder rhwng partneriaid yn y cyfnod cynnar hwn wedi cyfrannu at natur amddiffynnol y berthynas, sydd wedi llesteirio cynnydd. Er enghraifft, mae'r broses 'adolygu a herio' a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i fonitro cynnydd y consortia yn broses sydd â'r potensial i fod yn ddefnyddiol. Ond, yn ymarferol, gwelwyd tystiolaeth bod y consortia yn bod yn amddiffynnol ac yn amharod i fod yn agored, ac mae hyn wedi lleihau effeithiolrwydd y broses hon.

<sup>17</sup> Mae strategaeth Addysg Llywodraeth Cymru, 'Cymwys am Oes' (2014), yn nodi y caiff 'llwyddiant ei fesur gan gyrhaeddiad ein dysgwyr o'i gymharu â dysgwyr mewn gwledydd eraill' ac y bydd cynnydd yn cael ei fesur drwy'wella safonau llythrennedd a rhifedd dysgwyr... Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'u cyfoedion nad ydynt yn gymwys.... Codi hyder rhieni/gofalwyr, cyflogwyr, sefydliadau addysg bellach ac uwch yn y system addysg'.

<sup>18</sup> Datganiad Ysgrifenedig – Y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, Gweinidog Addysg a Sgiliau, Chwefror 2014.



- 2.29 Mae natur amddiffynnol y consortia ynglŷn â'r trafferthion a wynebwyd wedi arwain at greu cystadleuaeth rhyngddynt yn hytrach na cheisio dysgu a chydweithio â'i gilydd i'r eithaf. Gwelwyd llai o rannu nag a ddisgwyliwyd ymhlith y consortia ac amharodwydd i gydnabod problemau cyffredin.
- 2.30 Mae'r ddealltwriaeth ddrylyd o atebolrwydd y prif bartneriaid yn effeithio ar eu perthynas. Er mwyn gwella ysgolion yn llwyddiannus mae angen i'r prif bartneriaid i gyd gyflawni eu swyddogaethau'n dda (Ffigur 2). Tra bod ysgolion yn tybio'u bod yn atebol i rieni, i blant ac i gymunedau, mae awdurdodau lleol yn atebol i'w hetholwyr ac mae Llywodraeth Cymru'n atebol i'r etholwyr cenedlaethol. Nid yw consortia rhanbarthol yn atebol i etholwyr yn uniongyrchol ond maent yn asiantau sydd wedi eu creu'n llwyr gan eu hawdurdodau lleol ac maent felly yn rhan o'u fframweithiau atebolrwydd a chraffu. Mae cyrff craffu etholedig yn craffu ar lywodraeth leol a'r llywodraeth genedlaethol.
- 2.31 O fewn y system gwella ysgolion, ymddengys bod Llywodraeth Cymru yn teimlo – ar sail y bygythiad i dynnu cyllid yn ôl er enghraifft – bod awdurdodau lleol a'r consortia a sefydlir ganddynt yn atebol i Lywodraeth Cymru a'r agwedd hierarchaidd hon sydd wrth wraidd y broses adolygu a herio bresennol. Nid oes digon o bwyslais wedi ei roi ar broses o 'adolygu'r system', lle mae'r prif bartneriaid i gyd yn dal ei gilydd i gyfrif am eu swyddogaethau o fewn y system ac yn ymdrechu i feithrin ymddiriedaeth a chefnogaeth er mwyn sicrhau gwelliannau gyda'i gilydd.
- 2.32 Gwelwyd bod consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn teimlo bod ansawdd y cyfathrebu â Llywodraeth Cymru yn wael ar rai achlysuron, ac roedd hyn wedi effeithio ar y berthynas rhwng consortia a rhwng consortia a Llywodraeth Cymru. Dyfynnwyd enghreifftiau megis y ffordd yr aeth Llywodraeth Cymru ati i gyfathrebu â'r consortia ynghylch adfachu grantiau yn ystod y flwyddyn yn hydref 2014 a'r oedi wrth ddarparu gwybodaeth am newidiadau i grantiau a fydd yn gymwys o fis Ebrill 2015.

## Mae dyfodol ansicr y trefniadau presennol wedi arwain at ffocws tymor byr

- 2.33 Mae'r sefyllfa ansicr o ran y posibilrwydd o uno llywodraethau lleol a'r flaenoriaeth y cytunwyd arni o geisio gwella canlyniadau addysg ar frys wedi cyfrannu at ddymuniad i sefydlu consortia ffurfiol, yn unol â'r Model Cenedlaethol, a hynny'n gyflym iawn. Roedd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r consortia rhanbarthol baratoi cynlluniau busnes yn dangos yr hyn y byddent yn ei gyflwyno erbyn mis Ebrill 2014 ac erbyn mis Ebrill 2015. Paratowyd cynlluniau busnes 2014-15 yn gyflym iawn gan y consortia rhanbarthol, er na chytunwyd ar y cynlluniau gan y cyd-bwyllgorau na'r byrddau tan 2014, a rhai cyn hwyred â mis Rhagfyr 2014. Yn ôl asesiad Llywodraeth Cymru, roedd gwendidau ym mhob un o'r cynlluniau, er enghraifft yn y cynigion penodol ar gyfer awdurdodau lleol unigol.

- 2.34 Mae'r awydd i gyflymu'r trefniadau newydd ar gyfer cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion effeithiol a'r angen i geisio gweithio o fewn amserlenni tynn wedi effeithio ar drylwyredd rhai prosesau, megis ansawdd y cynllunio busnes, gan gyfrannu at agwedd amddiffynnol o fewn y system.
- 2.35 Gwelwyd bod y diffyg trylwyredd hwn hefyd i'w weld mewn gwendidau yn rhai o drefniadau monitro grantiau y consortia rhanbarthol. Er enghraifft, nid oedd y rhan fwyaf o'r consortia yn monitro'r defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol. Nid yw ffrydiau cyllido ansicr o reidrwydd yn arwain at ddefnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.
- 2.36 Dylai penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â pharhau â'r cynigion a gyflwynwyd ar gyfer uno llywodraeth leol alluogi Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol i ragweld bod consortia rhanbarthol yn debygol o barhau ar eu sail ddaearyddol a strwythurol bresennol am o leiaf dair blynedd. Dylai hyn ei gwneud yn bosibl i ddatblygu cynlluniau cyflwyno a chynlluniau ariannol tymor canolig (tair blynedd) a fydd yn cefnogi datblygiad cynaliadwy, a gallai hefyd wneud swyddi mewn consortia yn fwy deniadol.

## Ychydig iawn o gamau sydd wedi'u cymryd i wneud swyddi uwch yn fwy deniadol neu i feithrin gallu deiliaid y swyddi

- 2.37 Gwendid sy'n cael ei gydnabod yng Nghymru yw'r anhawster parhaus a geir wrth recriwtio arweinwyr ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Mae arweinyddiaeth yr awdurdodau lleol wedi ei beirniadu mewn adroddiadau arolygu Estyn ac mae sawl awdurdod lleol wedi ei chael yn anodd llenwi swyddi ar lefel cyfarwyddwr addysg. Mae angen denu'r dalent orau o Gymru a thu hwnt i swyddi o'r fath. Roedd y Model Cenedlaethol yn ailadrodd y disgwyliad y dylai pob consortiwm benodi rheolwr gyfarwyddwr i roi arweiniad strategol a chydweithredol. Ers eu sefydlu yn 2012, mae'r rhan fwyaf o'r consortia rhanbarthol wedi cael anawsterau recriwtio, gyda GwE a CCD yn llwyddo i benodi rheolwyr gyfarwyddwr 'interim' yn unig ar ôl y rowndiau cychwynnol o recriwtio. Dim ond un ymgeisydd terfynol oedd gan rai consortia ar gyfer swyddi uwch; dim ond ym mis Ebrill 2015 y llwyddodd GwE i lenwi pob swydd yn ei dîm. Mae'r anawsterau wrth recriwtio i swyddi uwch-reoli yn y consortia rhanbarthol wedi cael effaith andwyol ar gyflymder datblygiad y consortia.
- 2.38 Roedd Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y problemau o ran capasiti a gallu mewnol a mynd i'r afael â hyn yn rhannol drwy benodi secondeion â phrofiad o arwain yn y maes addysg. Mae'r datblygiad cadarnhaol hwn wedi helpu'r swyddogion adrannol i ddatblygu eu dealltwriaeth o oblygiadau lleol cynigion a pholisïau Llywodraeth Cymru, ond nid oes sicrwydd a fydd Llywodraeth Cymru'n cynnal y trefniant hwn a'i fanteision. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried wneud defnydd ehangach o secondiadau rhan-amser ar draws y system gwella ysgolion er mwyn rhannu mwy o wybodaeth a dealltwriaeth, yn yr un ffordd ag y mae'r consortia rhanbarthol wedi datblygu swyddi cynghorwyr herio rhan amser ar gyfer rhai o'r penaethiaid sydd wedi eu secondio.

- 2.39 Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i ddatblygu sgiliau a swyddogaethau penaethiaid yng Nghymru trwy benodi Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol a'r 'Fargen Newydd', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, wedi'i gefnogi gan ddatblygiad y Model Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol.
- 2.40 Ers cydnabod yr anawsterau wrth recriwtio arweinwyr addysg yng Nghymru, gwelwyd mai ychydig iawn o sylw a roddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol i ffyrdd o weithio gyda'i gilydd i wneud swyddi arwain mewn consortia, llywodraeth leol a'r llywodraeth genedlaethol yn fwy deniadol. Rydym ni wedi cael gwybod am waith sy'n cael ei ddatblygu gan CLILC, CCAC a'r Virtual Staff College ar raglen Datblygu Arweinyddiaeth ar gyfer cyfarwyddwyr a darpar gyfarwyddwyr ar draws Cymru. Mae hyn i'w groesawu, ond gwelwyd bod diffygion o ran dull mwy strategol o ddenu a datblygu'r bobl fwyaf talentog ar gyfer swyddi arweinyddiaeth yn y maes addysg, a hynny mewn consortia, llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol.

## Rhan 3

Mae consortia rhanbarthol yn parhau i ddatblygu ac yn adlewyrchu'r model disgwyledig yn fras, ond nid yw prosesau llywodraethu effeithiol a threfniadau rheolaeth ariannol wedi'u rhoi ar waith yn llawn



- 3.1 Mae'r adran hon yn amlygu agweddau ar lywodraeth a rheolaeth ariannol consortia rhanbarthol y mae angen eu datblygu.

## Mae gwendidau yng nghapasiti a gallu pob un o'r consortia rhanbarthol i gyflwyno gwasanaethau o hyd

- 3.2 Gwelwyd bod datblygiadau sylweddol ar y gweill ym mhob un o'r consortia rhanbarthol, gan gynnwys:
- a datblygu cynllun cyfathrebu ffurfiol a gwella ymgysylltiad â'r rhanddeiliaid allweddol i gyd, gan gynnwys penaethiaid a llywodraethwyr (CCD);
  - b datblygu mwy o gymorth ysgol-i-ysgol, i sicrhau mwy o gynaliadwyedd ac ymwreiddio newid (GCA);
  - c penodi Pennaeth Adnoddau Dynol strategol a chreu 'rhith-dîm AD' a datblygu nifer o bolisiau cyffredin (ERW); a
  - ch ffocws cryf ar ysgolion sy'n tanberfformio a oedd yn dangos rhywfaint o gynnydd cadarnhaol cynnar (GwE).
- 3.3 Fodd bynnag, roedd y consortia'n dechrau o wahanol sefyllfaoedd ac roedd cyflymder y newid yn anghyson. Fel y nodwyd ym **mharagraff 2.37**, dim ond yn ddiweddar y mae'r consortia wedi dod yn agos at weithredu i'w capasiti llawn o ran swyddi uwch.
- 3.4 Cafodd graddfa'r newid yr oedd ei hangen o fewn y consortia rhanbarthol ei thanamcangyfrif yn gyffredinol gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol (**paragraff 1.16**). Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn cysylltiad â'r gwaith o reoli busnes ym mhob consortiwm. Nid oedd y rhan fwyaf o'r consortia rhanbarthol wedi sefydlu digon o adnoddau canolog ar gyfer agweddau megis cyllid, adnoddau dynol, cyfathrebu a chymorth busnes. Nid oedd GCA, a hwnnw'n gwmni cyfyngedig, wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r angen am swydd ysgrifennydd y cwmni. Mae'r materion hyn wedi golygu nad oes digon o gymorth i swyddogaethau craidd y consortia rhanbarthol a bod gwaith yn cael ei bentyru ar unigolion allweddol.
- 3.5 Mae rhai consortia rhanbarthol nad ydynt yn dal i fod yn barod i ysgwyddo'r holl swyddogaethau a geir yn y Model Cenedlaethol. Mae'r Model Cenedlaethol yn rhoi hyblygrwydd i ganiatau ar gyfer gohirio trosglwyddiad rhai o'r gwasanaethau o'r awdurdodau lleol i'r consortia rhanbarthol tan fis Ebrill 2015. Y gwasanaethau mwyaf cyffredin i'w gohirio oedd cymorth i bobl ifanc 14-19, cyngor adnoddau dynol arbenigol i ysgolion, a gwasanaethau cefnogi llywodraethwyr, gyda CCD, ERW a GwE yn peidio â chynnig y swyddogaethau hyn yn rhanbarthol yn 2014-15. Fodd bynnag, mae ERW a GwE yn dal i fwriadu gadael aelodau staff y gwasanaethau hyn yn yr awdurdodau lleol. Gallai hyn arwain at amrywiad yn y gwasanaethau a ddarperir a diffyg pwynt cyswllt canolog i ysgolion a chynghorwyr herio. Mae ERW wedi sefydlu arweinwyr rhanbarthol a 'rhith-dimau' i gydlynu'r gwasanaethau'n ganolog.

- 3.6 Yn benodol, gwelwyd anghysondebau yn y cymorth adnoddau dynol arbenigol a ddarparwyd i ysgolion, ar draws ac o fewn pob consortia rhanbarthol. Mae'r consortia wedi ymdrechu i gydlynu dulliau o fynd i'r afael â hyn ar draws eu rhanbarthau. Er enghraifft, mae ERW wedi bod wrthi'n gweithio gyda thimau adnoddau dynol awdurdodau lleol i ddatblygu dull cyffredin ar draws y rhanbarth o ddelio ag amrywiol faterion, gan gynnwys ymgynghori ag undebau llafur ynglŷn â threfniadau rheoli perfformiad ar gyfer staff addysgu. Dylai dull ERW o gyfathrebu ac ymgysylltu esgor ar fwy o gysondeb yn y cyngor a roddir er mwyn osgoi cymhlethdod a negeseuon cymysg. Mae awdurdodau lleol a chynrychiolwyr consortia wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar 'fframwaith rheoli pobl', i'w ddatblygu fel rhan o'r Model Cenedlaethol. Cafodd hwn ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2015.
- 3.7 Nid yw consortia rhanbarthol wedi nodi nac ymgysylltu'n gyson â phartneriaid a all gynorthwyo â'u capasiti a'u gallu ar lefel uwch. Er enghraifft, mae'r Model Cenedlaethol yn pennu y dylai'r bwrdd cynghori gynnwys hyd at bum unigolyn sydd ag arbenigedd ym meysydd addysg, arweinyddiaeth a llywodraethu corfforaethol, ond mae'r rhan fwyaf o'r consortia rhanbarthol wedi bod yn araf i ymgysylltu ag unigolion perthnasol a fyddai'n gallu cynnig dealltwriaeth a chymorth ychwanegol.

### **Nid yw'r strwythurau rheoli o dan y cyd-bwyllgorau neu'r bwrdd yn gweithredu'n effeithiol ym mhob consortia rhanbarthol hyd yn hyn**

- 3.8 Dim ond CCD oedd wedi sefydlu bwrdd cynghori cwbl weithredol, yn ôl cyfarwyddyd y Model Cenedlaethol erbyn diwedd Ionawr 2015. Yn GCA, mae darpar aelodau'r bwrdd cynghori wedi eu penodi'n aelodau anweithredol o'r Bwrdd llawn erbyn hyn, ac nid oes bwrdd cynghori wedi ei sefydlu. Bydd y 'Grŵp Gweithredol ar y Cyd', sy'n cynnwys cynghorwyr arweiniol y cabinet a'r cyfarwyddwyr addysg, yn arwain y gwaith o fonitro GCA ar ran yr awdurdodau lleol.
- 3.9 Mae gan y cyfarwyddwyr addysg wahanol swyddogaethau ym mhob un o'r consortia rhanbarthol. Mae'r rhan fwyaf o'r consortia rhanbarthol yn ansicr ynghylch graddau priodol cyfraniad a dylanwad y cyfarwyddwyr addysg. Mewn rhai achosion, nid yw cyfarfodydd fforymau rhanbarthol y cyfarwyddwyr yn gwahaniaethu'n ddigonol rhwng cyfrifoldebau consortia a chyfrifoldebau nad ydynt yn gysylltiedig â chylch gwaith y consortia. Mae'n gallu bod yn aneglur a ydynt yn gwneud penderfyniadau ar ran y consortia ynteu ar ran yr awdurdod lleol. Nid yw cofnodion y cyfarfodydd yn cofnodi penderfyniadau mewn ffordd agored i neu mewn ffordd y gellir ei harchwilio. Mae hyn yn arwain at ddiffyg tryloywder.
- 3.10 Mewn rhai consortia rhanbarthol, nid yw'r uwch dimau rheoli yn rheoli'n strategol ac yn weithredol mewn ffordd sy'n bodloni anghenion y Model Cenedlaethol. Nid oedd tîm rheoli GwE yn gyflawn tan fis Ebrill 2015. Er bod gan CCD ymagwedd strategol glir, yn rhai o'r consortia eraill, gwelwyd bod uwch-reolwyr yn canolbwyntio ar reoli eu timau ac yn gwneud ychydig iawn o gyfraniad i ddatblygiad strategol eu consortiwm.



- 3.11 Mae diffyg prosesau rheoli risg strategol yn y consortia rhanbarthol i gyd. Roedd tri o'r pedwar consortia wedi creu cofrestr risg sylfaenol ond nid oedd y cofrestrau bob amser yn cynnwys risgiau sylweddol, megis perthnasau gwael yn tanseilio cynnydd. Nid oedd rheoli risg yn rhan annatod o'r dull rheoli yn y rhan fwyaf o'r consortia. Er hynny, mae CCD wedi cynnwys trafodaeth am y gofrestr risg yn eitem sefydlog ar agenda ei gyd-bwyllgor ers mis Rhagfyr 2014. Ers ein gwaith maes, mae GCA wedi cynnig sefydlu pwyllgor archwilio ar gyfer y cwmni, a bydd rheoli risg yn un o'i swyddogaethau.

## Mae swyddogaethau craffu ac archwilio yn datblygu ond nid ydynt wedi eu sefydlu'n llawn

- 3.12 Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am graffu ar y consortia rhanbarthol mewn cysylltiad â pherfformiad eu hawdurdod lleol unigol. Mae lefel y craffu rhwng awdurdodau lleol yn anghyson, a hynny o fewn pob consortiwm rhanbarthol ac yn genedlaethol. Ar y cyfan, mae'r gwaith craffu wedi digwydd ar lefel uchel, heb ganolbwyntio llawer ar wybodaeth ariannol na gwerth am arian. Gan amlaf, cynhaliwyd y gwaith ar sail ymatebol yn hytrach nag yn rhagweithiol. Fodd bynnag, mae rhai consortia rhanbarthol yn datblygu prosesau craffu cyffredin. Er enghraifft, mae ERW yn gweithio gyda Swyddogion Craffu o bob awdurdod lleol er mwyn sefydlu amserlen sy'n cynnwys cyfres o feysydd pwnc cyffredin i bob awdurdod lleol graffu arnynt, a'r data cysylltiedig y bydd y consortiwm yn ei ddarparu. Dylai hyn roi sicrwydd i bob awdurdod lleol eu bod yn craffu ar y meysydd allweddol, gan alluogi'r consortiwm i gynllunio ei ddefnydd o adnoddau'n well.
- 3.13 Nid oes yr un o'r rhanbarthau yn gwneud gwaith craffu ar bob consortiwm rhanbarthol yn ei gyfanrwydd. Roedd yn anhebygol bod Cadeiryddion pwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol perthnasol wedi cyfarfod â'i gilydd. Bwriad gweithio'n rhanbarthol yw rhannu arferion gorau ar draws pob rhanbarth. Gallai craffu ar y cyd ei gwneud yn bosibl i ystyried effaith gyffredinol gweithio'n rhanbarthol a pha un a yw perfformiad awdurdodau unigol a pherfformiad y rhanbarth cyfan yn gwella.
- 3.14 Mae gwendidau yn swyddogaeth archwilio'r rhan fwyaf o'r consortia rhanbarthol. Mae pob un o'r pedwar consortia rhanbarthol wedi penodi un awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol ac mae adolygiadau wedi'u cynnal i wahanol raddau. Yn CCD, mae'r archwilyr mewnol yn rhoi adroddiad blynyddol i'r Cyd-bwyllgor ar reolaeth fewnol. Fodd bynnag, mewn consortia eraill, roedd adroddiadau archwilio wedi nodi materion nad oedd y cyd-bwyllgorau na'r Byrddau wedi cael gwybod amdanynt. Rhan fechan iawn sydd gan bwyllgorau archwilio awdurdodau lleol yng ngwaith y rhan fwyaf o gonsortia rhanbarthol, er mai hwy sy'n gyfrifol am lofnodi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod lleol, sy'n cynnwys gwaith cyd-bwyllgorau. Fel y nodir uchod, mae GCA yn cynnig creu pwyllgor archwilio ar gyfer y cwmni. Mae'r cylch gorchwyl arfaethedig yn awgrymu y bydd y pwyllgor yn cyflawni swyddogaeth archwilio draddodiadol a swyddogaeth graffu ar y cyd, ac mae'r ddwy swyddogaeth hon yn bwysig ar gyfer atebolrwydd cyffredinol y consortia.

## Nid yw'r trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon cryf i asesu effeithiolrwydd y gweithgarwch

- 3.15 Roedd diffyg cyfeiriad strategol cyffredinol mewn cysylltiad â mesurau llwyddiant cydlynol y cytunwyd arnynt i Gymru hyd nes i Cymwys am Oes gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2014. Roedd pob un o'r consortia rhanbarthol wedi paratoi cynlluniau busnes ar gyfer 2014-15, ond nid oedd pob un o'r cynlluniau busnes yn nodi camau clir, gydag amserlenni ac adnoddau cysylltiedig, nac effaith ddisgwyliedig y camau hyn, yn arbennig mewn cysylltiad ag atodiadau awdurdodau lleol. Mae'r diffygion hyn wedi arwain at lai o adrodd effeithiol ar berfformiad yn erbyn y cynlluniau busnes. Byddai adrodd ffurfiol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol mwy manwl yn amlygu cynnydd a meysydd lle mae gwendidau'n glir i uwch swyddogion, a hynny yn y consortia ac yn yr awdurdodau lleol fel ei gilydd.
- 3.16 Roedd y cynlluniau busnes ar gyfer 2014-15 yn canolbwyntio ar un flwyddyn ariannol ac nid oeddynt yn cynnwys unrhyw elfen o gynllunio ar gyfer y tymor canolog. Byddai hynny wedi cynnig cyfeiriad a throsolwg strategol ar gyfer cyfnod hwy.
- 3.17 Mae templed cynllun busnes wedi ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 ac mae'n rhestru 16 o feysydd blaenoriaeth (gan gyfeirio at amcanion strategol Cymwys am Oes a blaenoriaethau'r Model Cenedlaethol.) Mae'r templed yn ei gwneud yn ofynnol i bob consortiwm nodi ei ganlyniadau addysgol a'i ddangosyddion perfformiad allweddol ei hun ar gyfer pob un o'r meysydd blaenoriaeth.
- 3.18 Mae anghysondeb yn y dulliau a ddefnyddir i osod targedau cyrhaeddiad ar draws y consortia rhanbarthol. Gellir gosod targedau cyrhaeddiad ar lefel disgyblion unigol, ar lefel ysgol, ar lefel awdurdod lleol ac ar lefel rhanbarthol. Mewn rhai consortia rhanbarthol, mae'r targedau rhanbarthol a osodir yn uwch na chyfanred targedau'r awdurdod lleol neu'r ysgolion. Mae hyn yn cyfleu uchelgais y consortia ond mae'n creu dryswch a disgwyliadau cymysg i ysgolion ac awdurdodau lleol.
- 3.19 Mae amrywiol dulliau o gasglu a dadansoddi data ar lefel ysgolion a lefel disgyblion unigol ym mhob consortiwm rhanbarthol ac nid yw'r systemau hyn, ar y cyfan, wedi eu datblygu'n ddigonol. Ychydig iawn o ystyriaeth y mae pob consortiwm rhanbarthol wedi ei rhoi i ddulliau consortia eraill o reoli data. Byddai ymagwedd fwy cydweithredol yn arbed adnoddau consortia ac yn cynnig data cyson i gynghorwyr herio ei ddadansoddi.
- 3.20 Oherwydd y cyfyngiadau ar rannu data, ni chaiff Llywodraeth Cymru drosglwyddo data yn uniongyrchol i'r consortia rhanbarthol. Mae'n rhaid i'r consortia gael gafael ar y data drwy'r awdurdodau lleol. Mae hyn yn arwain at oedi a mwy o anghysondebau yn y data a dderbynnir gan y consortia. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar hyn o bryd ar fynd i'r afael â hyn.

- 3.21 Un agwedd genedlaethol allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arni yw mynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gynnydd disgyblion. Fodd bynnag, mae'r dulliau o fynd i'r afael ag amddifadedd yn wan ar draws y consortia rhanbarthol. Mae rhai o'r consortia rhanbarthol wedi penodi arweinydd gwasanaeth ar gyfer amddifadedd a thlodi; ond gwelwyd mai prin yw'r gwaith a wnaed hyd yn hyn ac nad oedd holl staff y consortia yn ymwybodol o'r swydd. Yn ERW, amlygodd uwch-reolwyr bryderon ynghylch tlodi gwledig, oherwydd natur ddaearyddol y rhanbarth, ond nid oeddent wedi datblygu dull digonol i fesur y broblem a mynd i'r afael â hi.
- 3.22 Mae'r gefnogaeth a roddir gan ysgolion i'w gilydd yn elfen allweddol o ymyrraeth consortia ac wedi ei nodi yn y Model Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r un o'r consortia rhanbarthol wedi ystyried i ba raddau y gallai eu gweithgareddau gwella ysgolion gael canlyniadau anfwriadol, megis cynnydd yn y defnydd o athrawon cyflenwi. Canfu adroddiadau a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ac Estyn yn 2013 fod defnyddio athrawon cyflenwi yn atal cynnydd dysgwyr o ran datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Drwy ystyried nifer ac effaith y gwersi gan athrawon cyflenwi, gallai consortia rhanbarthol ganfod a oedd yn ffactor allweddol wrth fynd ati i wella canlyniadau a chynnig newidiadau lle y bo'n briodol.
- 3.23 Mae pob consortiwm rhanbarthol yn paratoi adroddiadau hunanwerthuso blynyddol, a darparodd pob un adroddiad wedi ei ddiweddarau ar gyfer yr astudiaeth hon. Roedd yr adroddiadau'n canolbwyntio'n gyffredinol ar berfformiad ysgolion ac ymyrriadau i ddarparu cefnogaeth ond ar y cyfan, nid oedd llawer o werthuso o ran trefn lywodraethu'r consortia. Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau hunanwerthuso'n tueddu i fod yn or-gadarnhaol ac nid oedd yn ymddangos eu bod yn llwyr gydnabod gwendidau ar draws pob agwedd ar eu gwaith. Fel arweinwyr yn y maes gwella addysg, dylai'r consortia gynnig esiampl o ansawdd a gwrthrychedd mewn cysylltiad ag unrhyw ffurf ar hunanasesu neu adroddiad hunanwerthuso.

## Nid yw trefniadau rheoli ariannol y rhan fwyaf o gonsortia yn ddigon cadarn i asesu'r gwerth am arian a gyflawnir

- 3.24 Mae lefel y cyllid ar gyfer gwella ysgolion sy'n cael ei chyfeirio drwy'r consortia rhanbarthol yn amrywio'n fawr ym mhob rhanbarth, sef cyfraniadau craidd yr awdurdod lleol yn ogystal â grantiau sy'n ymwneud â gwella ysgolion. Er enghraifft, yn ERW, mae'r awdurdodau lleol yn dal gafael yn y mwyafrif o'u cyfraniadau craidd gan fod y rhan fwyaf o'r aelodau staff wedi'u cyflogi gan bob awdurdod lleol. Yn 2014-15, cytunwyd mai dim ond £250,000 a fyddai'n cael ei roi i ERW ar gyfer aelodau staff a gyflogir yn ganolog. Nid yw'r mwyafrif o'r grantiau yn cael eu cyfeirio drwy'r consortiwm a chaiff penderfyniadau ynglŷn ag oddeutu £60 miliwn o gyllid grant ei wneud gan gyfarwyddwyr addysg, awdurdodau lleol neu ysgolion. Yn CCD, er enghraifft, caiff mwyafrif yr aelodau staff eu cyflogi'n ganolog ac mae holl gyfraniadau'r awdurdod lleol a'r rhan fwyaf o'r cyllid grant yn cael ei chyfeirio drwy'r consortiwm ac yn cael ei dosbarthu fel y bo'n briodol. Roedd hyn yn golygu cyfanswm o £58.4 miliwn yn 2013-14.

- 3.25 Nid yw'r rhan fwyaf o'r consortia yn gwneud digon o waith monitro ac adrodd am incwm a gwariant perthnasol ar wella ysgolion, yn arbennig pan nad yw'r cyllid yn cael ei gyfeirio drwy'r consortiwm. Mae hyn yn golygu nad oes gan uwch-reolwyr ddigon o wybodaeth bob amser i wybod union lefel cyfanswm y gwariant sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r consortia. Mewn un consortiwm, mae pob awdurdod lleol yn cyflogi nifer penodedig o aelodau staff ac nid yw cost hyn i bob awdurdod lleol wedi ei fesur, na sut y mae'n cymharu â'r cyfraniad a awgrymir yn y Model Cenedlaethol. Golyga hyn nad yw wedi bod yn bosibl i ni gymharu gwariant yn uniongyrchol rhwng consortia.
- 3.26 Mae'r gwaith o reoli'r gyllideb ariannol yn wan ar draws y rhan fwyaf o'r consortia. Roedd cynlluniau busnes 2014-15 yn tueddu i gynnwys cyllideb sylfaenol heb wybodaeth fanwl ar incwm a gwariant, ac ychydig iawn o ystyriaeth a roddwyd i gyllid grant. Mae'r adroddiadau ar y gyllideb a gyflwynir i'r uwch-reolwyr a'r cydbwyllgorau neu'r byrddau yn aml yn anfodhaol.
- 3.27 Mae'r dull o wneud penderfyniadau ynglŷn â gwario grantiau yn anghyson ar draws y consortia rhanbarthol. Mae rhai consortia yn gyfrifol am ddyrannu grantiau penodol. Mae hyn yn galluogi consortia i gyfeirio'r grantiau yn unol â'u strategaethau. Mewn achosion eraill, yr awdurdodau lleol sy'n penderfynu ar ddyraniad y grantiau, sy'n golygu llai o reolaeth i gonsortia rhanbarthol. Ar ôl ei ddyranu, ni roddwyd ddigon o ystyriaeth ar y cyfan i'r ffordd orau o fonitro sut y caiff y grant ei wario ac mae amrywiadau yn y dull o fonitro'r ffordd y caiff grantiau eu gwario ar draws y consortia. Cafwyd nifer o amodau ar adroddiadau archwiliadau ar grantiau sy'n ymwneud â gwella ysgolion.
- 3.28 Mae cyllid yn cael ei wario heb roi meini prawf gwariant eglur i ysgolion neu awdurdodau lleol mewn rhai achosion. Er enghraifft, dyrannodd GwE oddeutu £500,000 ar draws bob ysgol ar gyfer cymorth ysgol-i-ysgol, fodd bynnag, roedd diffyg canllawiau i ddechrau o ran sut y gallai ysgolion wario'r arian hwn.
- 3.29 Nid oes yr un o'r consortia rhanbarthol wedi gosod amcanion ariannol priodol, er enghraifft, mewn cysylltiad â sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy waith y consortia. Byddai amcanion yn rhoi mwy o bwyslais ar gynllunio ariannol a gallai helpu i liniaru pwysau ariannol yn y dyfodol.
- 3.30 Nid yw'r rhan fwyaf o'r consortia rhanbarthol wedi rhoi digon o ystyriaeth i sut y gellir dangos tystiolaeth o werth am arian eu gweithgareddau. Mae un consortiwm rhanbarthol, GCA, yn datblygu offeryn sydd â bwriad o dracio pob ymyriad a dderbynnir gan ysgol, gan gynnwys ei gost, yn erbyn newidiadau mewn perfformiad ac yng ngategori archwilio'r ysgol. Er bod hyn ar lefel sylfaenol, mae'n dangos gweledigaeth i ystyried gwerth am arian yn rheolaidd a darparu tystiolaeth ar gyfer cynllunio ymyriadau yn y dyfodol.

## Nid yw consortia rhanbarthol wedi sicrhau lefel briodol o dryloywder a gweithredu agored hyd yn hyn

- 3.31 Mae dau gonsortiw m rhanbarthol nad ydynt yn sicrhau bod agendâu a chofnodion cyfarfodydd eu cyd-bwyllgorau a'u byrddau ar gael yn gyhoeddus, ar eu gwefannau eu hunain nac ar wefannau'r awdurdodau lleol. Mewn rhai achosion, nid yw'r cofnodion a gofnodir yn ddigonol. Er enghraifft, ar adeg yr adolygiad, nid oedd cofnodion cyd-bwyllgor ERW yn nodi'n glir a oedd gan aelodau hawliau pleidleisio. Golyga hyn nad yw'r cyhoedd yn deall yn glir beth y mae'r cyfranogwyr yn ei drafod mewn cyfarfodydd ac nad oes tryloywder o ran y penderfyniadau a wneir.
- 3.32 Nid yw consortia rhanbarthol wedi rhoi cydnabyddiaeth ddigonol i unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn sgil eu gweithrediadau. Gwelwyd enghreifftiau o gynghorwyr herio a oedd ar gontractau rhan amser a oedd hefyd yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i ysgolion yn y rhanbarth hwnnw fel ymgynghorwyr addysg allanol. Drwy beidio â mynd ati'n weithredol i nodi a rheoli gwrthdaro buddiannau, gallai uniondeb gwaith y consortia gael ei danseilio.
- 3.33 Mewn un consortiw m rhanbarthol, CCD, mae problemau posib yn ymwneud ag atebolrwydd aneglur, nad oedd CCD wedi rhoi digon o ystyriaeth iddynt. O ganlyniad i anawsterau wrth lenwi swyddi, mae dau o'r uwch-gynghorwyr herio yn uwch-reolwyr mewn awdurdod lleol hefyd. Er bod hyn yn hyrwyddo cysylltiad cryf rhwng y consortiw m a'r awdurdod lleol, nid yw'n glir i bwy y maent yn atebol ac mae'n creu anghysondebau â'r awdurdodau lleol eraill. Erbyn hyn, mae CCD yn cynnig sefydlu rolau ar y cyd ym mhob awdurdod lleol, sy'n cael eu dal i gyfrif drwy adolygiadau effaith bob tymor. Gwelwyd achosion eraill hefyd lle'r oedd cynghorwyr herio yn gweithio'n rhan amser i gonsortiw m ac yn rhan amser i asiantaeth arall. Nid oedd consortia yn ymwybodol o'r potensial o wrthdaro buddiannau mewn sefyllfaoedd o'r fath.

## Mae consortia rhanbarthol yn datblygu eu hymgysylltiad â'r amrywiaeth o randdeiliaid ac aelodau staff

- 3.34 Mae rhai consortia rhanbarthol yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag aelodau staff. Mae GCA yn cynnal diwrnod adolygu gwasanaeth ar ddiwedd pob tymor er mwyn i'r aelodau staff gael trafod cynnydd, cael adborth gan yr awdurdod lleol, rhannu straeon llwyddiant a chynllunio gwelliannau. Mae hyn yn ffordd o rannu gwybodaeth ag aelodau staff a'u hymgysylltu â llwyddiant y consortiw m yn y dyfodol.
- 3.35 Er bod pob consortiw m rhanbarthol yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu ad hoc â rhanddeiliaid allweddol, nid yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi datblygu strategaeth gyfathrebu gadarn hyd yn hyn. Er enghraifft, mae GwE wedi bod yn hwyr yn datblygu ei frand a'i hunaniaeth ei hun. Mae'n gweithredu ar hyn o bryd drwy wefan 'Consortiw m Gogledd Cymru' a oedd yn bodoli eisoes, sy'n cynnwys ychydig iawn o wybodaeth am GwE a'i weithgareddau. Mae GwE wedi contractio cwmni allanol i

greu gwefan bwrpasol yn lle hon. I'r gwrthwyneb, mae gan CCD gynllun cyfathrebu manwl, sy'n cynnwys gwefan gynhwysfawr a chylchlythyr misol i randdeiliaid allweddol. Golyga hyn fod rhanddeiliaid yn ymwybodol o weithgareddau'r consortiwm a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol, ac yn fwy tebygol o ymgysylltu â'r consortiwm.

- 3.36 Dim ond un consortiwm rhanbarthol, sef GwE, sydd wedi cynnwys y sector ysgol ffydd yn ffurfiol yn ei drefniadau llywodraethu drwy benodi cynrychiolydd esgobaethol yn aelod o'r pwyllgor heb hawliau pleidleisio. Dywedodd y cyfarwyddwyr addysg esgobaethol fod y berthynas waith â phob consortiwm rhanbarthol wedi gwella er nad oes trefn ffurfiol ar gyfer cydweithio. Byddai hyn yn cefnogi ysgolion ffydd yn well ac yn sicrhau cysondeb rhanbarthol.



## Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg yr astudiaeth

Atodiad 2 – Prif ganfyddiadau ac  
argymhellion adroddiad  
Estyn ar waith y consortia  
rhanbarthol ar gyfer  
gwasanaethau gwella  
ysgolion

Atodiad 3 – Trefniadau consortia  
rhanbarthol



# Atodiad 1 – Methodoleg yr astudiaeth

## Adolygiad o lenyddiaeth, data ac ystadegau

Adolygwyd amrywiaeth eang o ddogfennau a data, gan gynnwys:

- Polisiâu a dogfennau strategol Llywodraeth Cymru yn ymwneud â gwella ysgolion, gan gynnwys y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.
- Data Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar wariant a grantiau yn ymwneud â gwella ysgolion.
- Adolygiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhai hynny a gynhaliwyd gan Robert Hill Consulting a'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Adolygiadau allanol, gan gynnwys y rhai hynny a gynhaliwyd gan Estyn a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
- Fframweithiau llywodraethu gan gynnwys **The Good Governance Standard for Public Services** a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Annibynnol ar Lywodraethu Da mewn Gwasanaethau Cyhoeddus, Ionawr 2005.

## Cyfweliadau â Llywodraeth Cymru

Cynhaliwyd cyfweliadau ag amrywiaeth o swyddogion Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am wella ysgolion, yn ogystal â swyddogion ym meysydd cyllid, gwasanaethau cyfreithiol ac archwilio mewnol.

## Ymweliadau â chonsortia rhanbarthol

Aethpwyd i ymweld â phob un o'r pedwar consortia rhanbarthol rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Ionawr 2015. Cynhaliwyd yr ymweliadau hyn ar y cyd ag Estyn a gynhaliodd 'arolwg thematig' i werthuso gwaith y consortia rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion fel rhan o'u cylch gwaith ar gyfer y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Yn ystod yr ymweliadau, cynhaliwyd cyfweliadau ag amrywiaeth o unigolion gan gynnwys rheolwyr y consortia rhanbarthol, uwch-swyddogion awdurdodau lleol ac aelodau etholedig.

Ystyriwyd hefyd amrywiaeth o ddogfennau a ddarparwyd gan bob consortiwm hyd at 31 Ionawr 2015 gan gynnwys cytundebau cyfreithiol, cynlluniau busnes, polisiâu, cyllidebau, dadansoddiadau ariannol, cofnodion cyfarfodydd, a hunanwerthusiadau.

## Gwaith arall

Mynychwyd y cyfarfodydd 'adolygu a herio' yn ystod hydref 2014 rhwng Llywodraeth Cymru a phob un o'r consortia rhanbarthol.

Siaradwyd hefyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â'r gwasanaethau gwella ysgolion.

# Atodiad 2 – Prif ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad Estyn ar waith y consortia rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion

Aeth Estyn ati i wneud gwaith mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog ar gyfer 2014-15. Archwiliodd Estyn ddulliau llywodraethu ac arwain y consortia rhanbarthol, ac effeithiolrwydd y gwasanaethau i ysgolion, yng nghyd-destun perfformiad presennol ysgolion a disgyblion. Mae ei adroddiad, **Gwella ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol**, yn seiliedig ar yr ymweliadau â'r consortia rhanbarthol a gynhaliwyd gyda staff Swyddfa Archwilio Cymru a thystiolaeth arall a rannwyd, wedi ei gyhoeddi gyda'r adroddiad hwn ac mae ar gael yn [www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk).

## Prif ganfyddiadau

Er na all y gwelliannau cyffredinol yn safonau cyrhaeddiad disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf gael eu priodoli'n gyfan gwbl i ddatblygu consortia rhanbarthol, mae'r data cyhoeddus yn adlewyrchu gwelliant graddol yng nghyrrhaeddiad disgyblion ar draws pob un o'r pedwar rhanbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cyflawni ar lefelau tebyg ar draws pob rhanbarth ond yng nghyfnod allweddol 4, mae mwy o amrywiad mewn lefelau deilliannau disgyblion. Mae perfformiad yn gyson uwch yn GWE ac ERW nag ydyw yn CCD a GCA, ac mae lefelau mwy o amddifadedd cymdeithasol yn y ddau ranbarth olaf.

Mae deilliannau arolygu ysgolion yn eithaf tebyg ar draws y pedwar rhanbarth, er bod cyfran cryn dipyn yn uwch o ysgolion wedi achosi pryder yn GCA yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ERW, nid oes digon o blith nifer gymharol uchel o ysgolion lle mae angen gweithgarwch dilynol ar ôl eu harolygiad wedi gwneud digon o gynnydd, ac o ganlyniad, mae lefel eu gweithgarwch dilynol wedi cynyddu.

Mae'r consortia rhanbarthol wedi bod yn araf yn rhoi trefniadau llywodraethu ar waith yn llawn yn unol â Model Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithio Rhanbarthol. Cafodd pob un o'r consortia rhanbarthol drafferthion yn llenwi swyddi uwch, ac fe gafodd hyn effaith niweidiol ar eu gallu i gyfeirio a rheoli gwaith ac mae'n amlygu diffyg dull strategol cenedlaethol o ddatblygu uwch arweinwyr. Mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu ac uwch arweinyddiaeth a rheolaeth y consortia.

Mae'r holl gynlluniau busnes a baratowyd gan y consortia ar gyfer 2014-2015 yn canolbwyntio'n briodol ar y meysydd pwysicaf i'w gwella. Fodd bynnag, mae'r holl gynlluniau'n cynnwys gwendidau pwysig. Yn benodol, nid yw'r cynlluniau'n nodi'n ddigon da pa effaith a ddisgwylir o'r camau a gymerwyd a sut a phryd y bydd hyn yn cael ei fesur. Mae hyn yn arbennig o wir am yr adrannau sy'n amlinellu'r modd y mae'r consortia yn teilwra eu gwaith i fodloni anghenion awdurdodau lleol unigol. Nid oes gan unrhyw un o'r consortia gynllun tymor canolig ar waith i arwain dull strategol o wella ysgolion.

Er bod enghreifftiau o graffu trylwyr gan aelodau etholedig ynghylch sut mae consortiwm rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion unigol ar lefel awdurdod lleol, nid yw pwyllgorau craffu yn dwyn eu huwch swyddogion a'u cynrychiolwyr i gyfrif yn ddigon da am eu rôl o ran sicrhau bod y consortiwm yn bodloni anghenion ysgolion yr awdurdod. Yn ychwanegol, nid oes dull ar y cyd i graffu ar effeithiolrwydd y consortiwm yn gyffredinol mewn unrhyw ranbarth.

Mae'r adroddiadau hunanarfarnu a luniwyd gan y consortia rhanbarthol yn rhy gadarnhaol ar y cyfan. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi cryfderau yn fwy cywir ac argyhoeddiadol na diffygion.

Mae'r rhan fwyaf o'r consortia rhanbarthol wedi ymgysylltu'n effeithiol â swyddogion awdurdodau lleol, arweinwyr ysgolion ac undebau llafur i ddatblygu eu blaenoriaethau a'u polisïau rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r un o'r consortia wedi ymgysylltu ddigon ag awdurdodau esgobaethol.

Mae'r consortia rhanbarthol wedi cryfhau eu trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer ymgynghorwyr her, yn enwedig er Medi 2014, ac mae mwy o gysondeb yng ngwaith ymgynghorwyr her o ganlyniad. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau yn cael eu rhoi ar waith yn ddigon trylwyr bob amser ac nid yw adroddiadau cyn-arolygiad yn cyd-fynd yn ddigon agos â chanlyniad arolygiadau bob amser.

Yn GCA a CCD, mae mwy na dwywaith yn fwy o ysgolion yn cymryd rhan yn rhaglen Her Ysgolion Cymru na'r ddau ranbarth arall. Yn y rhanbarthau hyn, mae'r consortia yn aneglur ynglŷn â'u perthynas waith gyda'r ysgolion yn y rhaglen. Mae'r consortia hefyd yn aneglur ynghylch sut byddant yn arfarnu eu rôl benodol mewn gwelliannau yn yr ysgolion hyn a goblygiadau hyn ar gyfer unrhyw arfarniad ehangach o wella ysgolion ledled Cymru.

Nid gan yr un o'r consortia rhanbarthol ddull strategol cydlynus o leihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad. Nid yw'r consortia rhanbarthol wedi monitro pa mor dda y mae ysgolion yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn ddigon agos.

Mae pob un o'r consortia wedi rhoi trefniadau addas ar waith gydag awdurdodau lleol ar gyfer rhannu gwybodaeth ddefnyddiol o lawer o feysydd gwasanaeth sy'n berthnasol i'w gwaith, fel anghenion dysgu ychwanegol, cynhwysiant cymdeithasol a lles, cyllid a chwynion. Fodd bynnag, nid oes gan yr un o'r consortia system wedi'i datblygu'n llawn ac a ddefnyddir yn gyson i gasglu, dadansoddi a rhannu gwybodaeth am gynnydd disgyblion ac ysgolion.

Yn gyffredinol, mae consortia rhanbarthol yn gwybod pa mor dda y mae llawer o'u hysgolion yn perfformio ar hyn o bryd trwy waith ymgynghorwyr her, ac fe gefnogir hyn trwy eu dadansoddiad o ddata cyrhaeddiad. Dywed y rhan fwyaf o benaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethol fod ymgynghorwyr her yn craffu'n fanwl ac yn deg ar berfformiad eu hysgol.

Er bod ymgynghorwyr her yn gwybod ar y cyfan beth mae data asesu yn ei ddangos am berfformiad ysgol, nid yw hyn bob amser yn golygu eu bod yn adnabod yr ysgol yn ddigon da. Nid yw ymgynghorwyr her bob amser yn ddigon diagnostig o ran deall pam mae ysgol yn perfformio'n dda neu ddim. Nid yw ymgynghorwyr her bob amser yn cymryd rhan ddigonol mewn safoni asesuadau athrawon ac maent yn llai effeithiol yn arfarnu addysgu ac arweinyddiaeth na safonau. Fodd bynnag, nid yw gwendidau yng ngwaith ymgynghorwyr her mor gyffredin ag yr oeddent pan ddechreuodd y consortia ffurfioli yn 2012.

At ei gilydd, mae consortia rhanbarthol yn well yn herio ysgolion ynglŷn â'u perfformiad presennol nag ydynt yn eu cefnogi i wella. Mae gan bob un o'r consortia ffocws priodol cryf ar gefnogi gwelliant mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae cymorth ar gyfer ysgolion mewn llawer o feysydd dysgu eraill, fel pynciau nad ydynt yn rhai craidd, naill ai'n wan, yn anghyson neu nid ydynt ar gael. Yn GCA a CCD, nid oes digon o gymorth ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r consortia yn datblygu strategaethau i'w gwneud yn hwylus i ysgolion gefnogi ei gilydd, er mai dim ond CCD sy'n cynnwys pob ysgol yn ei strategaeth. Nid yw'r consortia yn monitro ac yn arfarnu'n ddigon da beth yw effaith eu cymorth i wella ysgolion, p'un a yw'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol neu'i frocera neu p'un a yw'n gymorth o un ysgol i'r llall y maent yn ei hwyluso.

Mae consortia rhanbarthol fel arfer yn darparu gwybodaeth briodol ac amserol i awdurdodau lleol am ysgolion sy'n achosi pryder. Er bod awdurdodau lleol yn fwy parod i ddefnyddio eu pwerau ymyrraeth statudol, mae lleiafrif ohonynt yn amharod i ymyrryd o hyd, hyd yn oed pan fydd eu consortiwm rhanbarthol yn darparu mandad clir ar gyfer gweithredu. Wedi i awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad rhybudd statudol i wella i ysgol, mae'r consortiwm rhanbarthol fel arfer yn gweithio'n dda gyda'r ysgol a'r awdurdod lleol fel ei gilydd i gytuno ar gynllun addas a monitro cynnydd.

Rhoddodd staff Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru adborth llafar i'r consortia rhanbarthol ar ôl ymweliadau i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr arolwg hwn. Mae'r consortia wedi ymateb yn gadarnhaol i'w hadborth ac maent eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

## Argymhellion

Dylai consortia rhanbarthol:

- A1 Wella trefniadau rheoli perfformiad trwy:
- gynllunio ar gyfer y tymor canolig i sicrhau dull strategol o wella ysgolion;
  - sicrhau bod cynlluniau'n cynnwys camau gweithredu sy'n benodol a mesuradwy, gyda thargedau, costau a cherrig milltir priodol ar gyfer cyflawni;
  - cofnodi, rhannu a defnyddio data (o lefel disgybl i fyny) yn effeithlon ac yn effeithiol;
  - monitro cynnydd disgyblion ac ysgolion yn rheolaidd;
  - defnyddio dull mwy trylwyr o nodi risgiau a'u rheoli;
  - hunanarfarnu eu cryfderau a'u diffygion yn realistig; a
  - rheoli perfformiad unigol eu staff yn dynn.
- A2 Sicrhau cysondeb gwell yn ansawdd arfarniadau ymgynghorwyr her o ysgolion, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu ac arweinyddiaeth.
- A3 Datblygu strategaethau cliriach i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysg a sicrhau bod yr holl gamau gweithredu yn gydlynus i'r perwyl hwn.
- A4 Gwella ansawdd ac ystod y cymorth ar gyfer ysgolion, ac yn benodol:
- datblygu strategaethau cliriach ar gyfer gwneud y mwyaf o botensial cymorth o un ysgol i'r llall; a
  - darparu neu frocera cymorth gwell ar gyfer addysgu a dysgu mewn meysydd pwnc nad ydynt yn rhai craidd.
- A5 Cynnwys awdurdodau esgobaethol yn effeithiol wrth gynllunio ac arfarnu gwasanaethau rhanbarthol yn strategol.

Dylai awdurdodau lleol:

- A6 Gefnogi eu consortiwm rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau busnes tymor canolig a sicrhau bod yr holl gynlluniau'n ystyried anghenion eu hysgolion lleol.
- A7 Datblygu perthnasoedd gweithio ffurfiol rhwng pwyllgorau craffu yn eu consortiwm er mwyn craffu ar waith ac effaith eu consortiwm rhanbarthol.



Dylai Llywodraeth Cymru:

- A8 Wella'i strategaeth i ddatblygu uwch arweinwyr a rheolwyr ar gyfer addysg ar lefel awdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol.
- A9 Cydweithio'n fwy â chonsortia ac awdurdodau lleol i gytuno ar gynlluniau busnes tymor byr a thymor canolig a lleihau ceisiadau i newid ac ychwanegu at gynlluniau yng nghanol blwyddyn.
- A10 Sicrhau bod categoraiddio ysgolion yn cael ei safoni'n drylwyr ar draws y consortia.
- A11 Datblygu dealltwriaeth ar y cyd rhwng athrawon, ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru am ddiben targedau cyrhaeddiad a'r defnydd a wneir ohonynt.
- A12 Ymgysylltu'n fwy effeithiol ag awdurdodau esgobaethol i ddatblygu eu strategaeth ar gyfer gwella ysgolion.
- A13 Sicrhau bod consortia, awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau priodol ar gyfer ysgolion yn rhaglen Her Ysgolion Cymru.


# Atodiad 3 – Trefniadau consortia rhanbarthol

## GCA

Mae GCA yn gwmni a sefydlwyd gan bump awdurdod lleol sy'n comisiynu GCA i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.

Cyflogir staff GCA gan y cwmni.

Mae Consortiwm De-ddwyrain Cymru (SEWC) yn tynnu ynghyd gyfarwyddwyr addysg pump awdurdod lleol a rheolwr gyfarwyddwr GCA sy'n cyd-gysylltu cyfeiriad strategol GCA ac agweddau eraill ar addysg sydd y tu hwnt i gylch gwaith GCA, ar sail ranbarthol.




- 1 Blaenau Gwent
- 2 Caerffili
- 3 Sir Fynwy
- 4 Casnewydd
- 5 Torfaen

## CCD

Mae CCD yn Gyd-bwyllgor yn cynnwys pump awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaeth gwella ysgolion ar y cyd.

Cyflogir staff CCD gan Rhondda Cynon Taf.

Mae Grŵp Strategol Cyfarwyddwr CCD yn galluogi cyfarwyddwyr addysg awdurdodau lleol i gyfrannu ar ffurf grŵp llywio'r consortiwm.



- 1 Pen-y-bont ar Ogwr
- 2 Caerdydd
- 3 Merthyr Tudful
- 4 Rhondda Cynon Taf
- 5 Bro Morgannwg

## GwE

Mae GwE yn Gyd-bwyllgor yn cynnwys chwech awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaeth gwella ysgolion ar y cyd.

Trefnir Awdurdodau Lleol yn dair canolfan ar gyfer darparu gwasanaethau.

Cyflogir staff GwE gan Gyngor Gwynedd.

Mae Consortiwm Gogledd Cymru sy'n cynnwys chwe chyfarwyddwr addysg yn trefnu agweddau eraill ar addysg ar lefel ranbarthol, gan gynnwys agweddau y mae consortia eraill yn eu cynnwys yn eu gwasanaethau. Mae'r Consortiwm hefyd yn gweithredu fel Bwrdd Rheoli ar gyfer GwE.



- Hwb 1 - 1 Ynys Môn + 2 Gwynedd
- Hwb 2 - 3 Conwy + 4 Sir Ddinbych
- Hwb 3 - 5 Sir y Fflint + 6 Wrecsam


## ERW

Mae ERW yn Gyd-bwyllgor yn cynnwys chwech awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaeth gwella ysgolion ar y cyd.

Trefnir awdurdodau lleol yn dri hwb ar gyfer darparu gwasanaethau.

Cyflogir staff canolog ERW gan Sir Benfro. Cyflogir gweddill y staff gan awdurdodau lleol unigol. Mae'r swyddogaeth ganolog yn llai yn ERW nag yn y consortia eraill.

Mae cyfarwyddwyr addysg awdurdodau lleol yn aelodau o fwrdd cynghori ERW.



- Hwb 1 - 1 Ceredigion + 2 Powys
- Hwb 2 - 3 Sir Gaerfyrddin + 4 Sir Benfro
- Hwb 3 - 5 Castell-nedd Port Talbot + 6 Abertawe



Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)